

Cyngor Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

2015–2016

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.
I wneud cais, ffoniwch 01443 424170 neu anfonwch ebost i
cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Pwy ydyn ni	4
3. Adrodd am Gydraddoldeb	4
4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol	5
5. Sut rydyn ni'n bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol	6
6. Amcanion Cydraddoldeb	25
7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	29
8. Data Monitro Cyflogaeth	32
9. Caffael	32
10. Gwybodaeth Hygyrch	33
11. Gwaith Pellach	33
12. Manylion Cyswllt	34

ATODIADAU

Atodiad 1

Data Monitro Cyflogaeth

1. Cyflwyniad

Mae'n bleser i mi gyflwyno'r adroddiad cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn nodi dulliau gweithredu'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am ei waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymru, gadw adroddiad blynyddol ynglŷn â sut mae e wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i'r Cyngor allu cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth am yr holl ofynion mewn un adroddiad, yn ei gwneud hi'n haws i'r grwpiau sydd â diddordeb, weld sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, ei oblygiadau cyfreithiol, a'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae pob rhan o'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor. Mae'r adran olaf yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gwaith y mae angen i'r Cyngor ei wneud yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwella rhai meysydd, a bydd yr angen hwn yn parhau. Mae'r Cyngor yn credu y bydd cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn yn helpu'r Cyngor i gyflawni goblygiadau Dyletswyddau Penodol Cymru yn ogystal â'ch rhai chi fel cwsmeriaid er mwyn nodi'r meysydd sydd angen eu gwella a monitro'r cynnydd mewn perthynas â nhw.

Y Cynghorydd Geraint Hopkins

Aelod o'r Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

2. Pwy ydyn ni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol fawr ac mae ganddo boblogaeth o dros 234,000 o bobl. Cyngor Rhondda Cynon Taf yw cyflogwr pennaf yr ardal leol a'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru ac mae'n cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yn yr ardal leol. Mae dros 80% o'i weithwyr hefyd yn byw yn o fewn ffiniau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwmo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod hyn yn cael eu mynegi yn narpariaeth ein gwasanaethau ac ein harferion cyflogaeth.

Gweledigaeth y Cyngor yw:

"Bod yn Fwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb".

Cefnogwyd hyn gan ein gwerthoedd, sy'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Gonestrwydd
- Didwylledd
- Atebolrwydd
- Gwasanaethau
- Cludo
- Parch

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan 75 o aelodau etholedig ac mae'n gweithredu system Cabinet. Mae gan y Cyngor Garfan Rheolwyr Corfforaethol sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr, ac mae Uwch Gyfarwyddwyr yn mynychu ei chyfarfodydd. Mae dros 11,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi mewn amryw o feysydd gwasanaeth a swyddi yn rhan o'r cyfadrannau canlynol:

- Cyfadrannau y Prif Weithredwr
- Cyfadrannau y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng flaen
- Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

3. Adrodd am Gydraddoldeb

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni gwahanol ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor er mwyn cofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob un o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu trin dan ddyletswyddau penodol Cymru, yn

cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cyfnod 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015.

Mae'r rheoliadau yn mynnu'r canlynol:

Rhaid bod adroddiad 2014/15 yn nodi:

- *Camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol*
- *Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth yma wrth gwrdd â 3 nod y ddyletswydd gyffredinol*
- *Unrhyw resymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol*
- *Datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol*
- *Gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.*
- *Cynnydd o ran cyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod*
- *Datganiad o ba mor effeithiol yw camau gweithredu'r awdurdod tuag at gyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb.*

4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor (a sefydliadau'r sector cyhoeddus) wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau fel eu bod nhw'n rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Gael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu (disgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig i'w gweld isod).
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

Nodweddion Gwarchoddedig

Dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi'r gwahanol bethau sy'n gallu effeithio ar sut y caiff pobl eu trin, a gall olygu y bydd pobl yn dioddef gwahaniaethu. Diben y gyfraith yw diogelu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Rhyw – dynion a menywod
- Oedran – yn ifainc ac yn hen
- Anabledd – pob person anabl

- Ailbennu rhyw – pobl a gafodd eu geni yn y rhyw anghywir
- Hil – pobl o unrhyw hil, cenedligrwydd, neu dras ethnig neu genedlaethol
- Crefydd neu Gred – mae hyn yn cynnwys unrhyw grefydd neu ddiffyg crefydd
- Cyfeiriadedd Rhywiol – sut mae pobl yn teimlo yn ogystal ag ymddwyn o ran pobl o'r un rhyw, rhyw arall neu'r ddau ryw.
- Beichiogrwydd a Mamolaeth – o'r adeg y mae menyw yn dod yn feichiog

Mae hefyd angen rhoi sylw dyledus ar gael gwared ar wahaniaethu mewn perthynas â phriodasau a phartneriaethau sifil.

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a rhai sydd ddim yn eu rhannu, rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i:

- Cael gwared ag anfanteision, neu'u lleihau, sy'n wynebu pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- Diwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl hynny dydyn nhw ddim yn eu rhannu
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae niferoedd y bobl o'r fath sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl yn arbennig am sut y bydd e'n mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni gofynion y Ddyletswydd Gyffredinol.

5. Sut rydyn ni'n bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Caiff gwybodaeth berthnasol ei hystyried i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Gall gwybodaeth gynnwys data o ffynhonnellau lleol ac/neu fewnol megis arolygon i gwsmeriaid, fforymau cymunedol neu Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â data o ffynhonnellau cenedlaethol ac/neu allanol megis gwybodaeth cyfrifiad, adroddiadau ymchwil ac ystadegau ynghylch troseddau casineb.

Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Wrth ystyried pa wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys yn yr adroddiad, edrychodd y Cyngor ar yr wybodaeth a gafodd ei hystyried yn ystod cyfnod datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Galluogodd hyn i'r Cyngor fyfyrto a monitro p'un ai fod y wybodaeth dal yn briodol wrth ei gynorthwyo i ddarparu Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol.

Wrth adolygu'r amcanion cydraddoldeb, edrychwyd ar ddeilliannau monitro chwarterol a materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau cydraddoldeb blynyddol blaenorol i nodi a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol.

Am fanylion llawn, ewch i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y Cyngor:

<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/EqualityandDiversity/StrategicEqualityPlan.aspx>

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn dal i fod yn berthnasol i ddarpariaeth y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Mae dogfennau mewnol yn nodi'r wybodaeth ystadegol sy'n gallu cael ei defnyddio er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu neu at ddibenion cymharu er mwyn nodi gwelliannau neu feysydd ar gyfer gwella. Mae strategaethau mewnol a'u cynlluniau gweithredu yn rhoi gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn darparu ei flaenoriaethau. Mae gwybodaeth allanol, gan gynnwys gwybodaeth sydd â chyd-destun cenedlaethol, yn darparu data i'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo wrth ddatblygu polisiau a dulliau gweithredu priodol a pherthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad dim ond y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Er ei fod yn ddefnyddiol iawn, bydd gan feysydd gwasanaeth yr wybodaeth briodol hefyd a allai cynorthwyo'r Cyngor i nodi sut maen nhw'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. I gasglu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd arolwg i gael gwybodaeth berthnasol o feysydd gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ei ganlyniadau yn cyfrannu at yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â hyn, mae data monitro cyflogaeth o system Adnoddau Dynol y Cyngor (sef Vision ac e-recruitment) wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r wybodaeth berthnasol. Noder bod gwybodaeth monitro cyflogaeth yn cynnwys athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgol.

Defnydd o Wybodaeth

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio, roedd yn bwysig nodi arferion da ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn dangos bod ymrwymiad i gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd meysydd i'w gwella a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn adran 'gwaith pellach' yr adroddiad hwn.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2016–2020)
- Adroddiadau Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor (2015/16)

- Gwerthusiad Hunanwasanaeth o'r Meysydd Gwasanaeth (2015/2016)
- Darpariaeth Gwasanaethau/Prosiectau (2015/2016)
- Arferion cyflogi
- Rhaglen Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Cyflawni Newid – Cynllun Integredig Sengl RhCT (2013)
- AEGau (2015/2016)
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth (2015/2016)
- Monitro a Darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2015/2016).

Gwybodaeth ar Gydraddoldeb gan Feysydd Gwasanaeth

Roedd engreiffitiai o arfer da i'w gweld mewn nifer o feysydd gwasanaeth, a gynorthwyodd y Cyngor i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys 'cipolwg' o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Cyngor.

Beth rydyn ni wedi'i wneud i ddileu gwahaniaethu

Mae'r **Gwasanaeth Addysg i Oedolion** wedi llwyddo i dargedu grwpiau sy'n wynebu anfantais ac wedi rhoi dull gweithredu hollgynhwysol ar waith o ran dysgu. Mae gweithdrefnau ar gael i helpu'r rheiny sy'n wynebu rhwystrau penodol o ran ymgysylltu. Caiff hyfforddiant amrywiaeth a chydaddoldeb ei ddarparu ar gyfer staff yn rheolaidd.

Caiff pob ymdrech ei wneud i sicrhau bod y cyfleusterau yn briodol ac yn hygyrch i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cymorth arbenigol ar gael i sicrhau bod modd i bobl sydd â nam ar eu golwg neu'u clyw ymrestru ar gyrsiau, yn ogystal â phobl sydd â mathau eraill o anabledau.

Mae'r **Gwasanaethau i Oedolion** wedi cynnal ymgynghoriad ac ymarfer codi ymwybyddiaeth trylwyr a manwl er mwyn paratoi ar gyfer gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o fis Ebrill 2016 ymlaen. Bellach, mae gan bawb hawl i gael asesiad o'u hanghenion yn unol â meini prawf Cymru gyfan ar gyfer cael gafael ar wasanaethau.

Bwriad y gwasanaeth a gaiff ei ddarparu'n uniongyrchol neu'i gomisiynu yw sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar ei weithgarwch. Mae'r enghreifftiau o wasanaethau sy'n sicrhau cydraddoldeb i bobl sy'n agored i niwed yr ydym yn eu cefnogi yn cynnwys y canlynol:

- Mae ein Gwasanaeth Cymorth Pontio yn paratoi pobl sy'n agored i niwed, yn bennaf y rheiny sydd ag anabledau dysgu, i fyw yn annibynnol ac yn addysgu ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac sydd ddim yn arwain at allgáu cymdeithasol

- Mae ein Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed, yn bennaf y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac yn eu galluogi i barhau i fyw yn eu cymuned
- Comisiynu a chynorthwyo'r gwaith o ymestyn y Gwasanaeth Canolfan Fywyd Awtistig, gan ddarparu ymyriad sydd wedi'i dargedu i bobl ifainc sydd ag anghenion cymhleth iawn.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n sicrhau bod gweithwyr gofal sy'n ddynion ac yn ferched ar gael, fel bod modd i ddefnyddwyr y gwasanaeth gael dewis.

Mae modd cael gafael ar yr wybodaeth mewn nifer o fformatau gwahanol, ac mae modd manteisio ar wasanaeth cyfieithu. Ar gyfer ein gwasanaethau anabledau dysgu, rydyn ni'n defnyddio fformatau hawdd i'w darllen er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn rhan o'r gweithgaredd ac yn ei ddeall.

Mae'r **Gwasanaeth Budd-daliadau** yn derbyn mwy na 50,000 o geisiadau am fudd-daliadau gan drigolion yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae 26,000 o bobl yn cael cymorth gyda'u costau tai/treth y cyngor ar unrhyw adeg. Mae modd cael dogfennau mewn Braille neu lythrennau bras ar gyfer y rheiny sydd â nam ar eu golwg. Mae modd ymdrin ag ymholiadau yng Nghanolffannau IBobUn y Cyngor gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer trigolion sy'n fyddar.

Mae staff **Gwasanaethau i Blant** yn cwrdd ag amrywiaeth o bobl o gefndiroedd gwahanol. Cyn unrhyw gyfarfod â defnyddwyr gwasanaethau, rydyn ni'n gofyn iddyn nhw nodi eu dull cyfathrebu dewisol a chaiff hyn ei gofnodi ar gyfer y dyfodol.

Mae **Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor** wedi gwneud y rhan fwyaf o'r adeiladau cyhoeddus yn hygyrch. Hefyd, rydyn ni wedi gwneud addasiadau o fewn rheswm er mwyn sicrhau bod modd i bawb gael gafael ar wasanaethau. Caiff pob adeilad newydd ei gynllunio a'i adeiladu i gyd-fynd â'r safonau Rheoli Adeiladu diweddaraf, ac maen nhw'n gwbl hygyrch.

Mae'r garfan **Ymgynghori ac Ymgysylltu** wedi ymgorffori Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Preifat yn rhan o'u gwaith. Maen nhw'n gweithio'n agos â'r garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac mae aelodau o'r garfan yn rhan o rwydwaith amrywiaeth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol + y Cyngor. Mae cyfle i drigolion a rhanddeiliaid roi eu barn mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau (arolygon ar-lein, arolygon ar bapur, llythyrau, negeseuon e-bost, sesiynau Twitter, achlysuron ymgysylltu).

Rydyn ni'n ymgysylltu â'r amrywiaeth fwyaf o bobl â phosibl. Ein nod yw canfod barn pob grŵp sy'n byw yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â chynrychioli pob barn a phryder. Rydwn ni'n cynnal fforymau i grwpiau anabl a grwpiau lleiafrifol er mwyn cofnodi eu barn. Weithiau, gall materion penodol effeithio ar y grwpiau yma, a bydd angen i'r meysydd gwasanaeth eu hasesu nhw.

Ein nod yw ymgysylltu â rhagor o grwpiau lleiafrifol, grwpiau sydd ar chwâl a grwpiau sydd ddim yn cael eu cynrychioli ddigon er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynrychioli'n dda mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

O ran **Gwasanaethau i Gwsmeriaid**, mae'r Ganolfan Gyswllt yn darparu llinell Synhwyrdd er mwyn helpu cwsmeriaid a allai fod yn fyddar neu â nam ar eu clyw i gael gafeal ar wasanaethau. Caiff y rhif yma ei hyrwyddo ar-lein ac yn ein deunyddiau hyrwyddo 'Cysylltwch â Ni'.

Mae modd darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i bobl sydd ag iaith gyntaf arall, heblaw Cymraeg neu Saesneg. Caiff hyn ei ddarparu mewn apwyntiad mewn Canolfan IBobUn gan ddefnyddio Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu Cymru.

Cafodd Canolfannau IBobUn eu dylunio fel eu bod nhw'n bodloni'r safonau o ran hygyrchedd i bobl anabl. Mae ystafelloedd ar gael sy'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, yn ogystal â gwasanaeth dolen sain.

Mae'r cofnodion ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau Llinell Gymorth, a chofnodion cwsmeriaid yn cynnwys gwybodaeth am eu hanes meddygol, dewis iaith, crefydd ac unrhyw ofynion arbennig. Os byddan nhw'n gwasgu eu Larwm Cymunedol ac yn methu â siarad â chynghorwr, byddwn ni'n galw am gymorth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt allweddol a gaiff eu rhoi i ni pan fyddwn ni'n gosod y cyfarpar.

Mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu'r Ganolfan Hygyrchedd i Bobl Anabl er mwyn sicrhau bod presenoldeb y Cyngor ar y wefan yn diwallu anghenion defnyddwyr anabl.

Yn y Gwasanaeth **Addysg**, bydd pob adeilad ysgol o'r 21ain Ganrif yn hygyrch, er mwyn lleihau'r angen i addysgu plant ag anabledau y tu allan i'w cymunedau. Mae sefydliad 'Kick It Out' yn darparu cymorth a hyfforddiant sy'n ymdrin â hiliaeth a gwahaniaethu.

Mae **Gwasanaethau Rheoli a Chynnal a Chadw'r Priffyrdd** yn asesu'r effaith ar yr holl drigolion a phawb yn y gymuned. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio mewn modd teg a chyfartal, gan ymdrechu i ddiwallu anghenion unigolion lle bod modd gwneud hynny.

Mae'r Gwasanaeth **Adnoddau Dynol** yn ymdrechu i hyrwyddo'r ddarpariaeth, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn hollgynhwysol, yn gyfartal ac yn deg. Mae pob aelod o'r garfan wedi cwblhau amryw o fodiwlau e-ddysgu sy'n mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Maen nhw'n cynghori meysydd gwasanaeth ar bob agwedd ar gydraddoldeb ac addasiadau o fewn rheswm.

Mae ein carfan **Dai** yn cynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol bob dwy flynedd sy'n nodi'r anghenion o ran tai mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau am oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil ac anabled. Wedyn, caiff gwasanaethau eu teilwra o amgylch ardaloedd daearyddol o angen neu anghenion grwpiau penodol. Yn 2015, cafodd Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr o ran Tai ei gynnal er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd sy'n rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Caiff dyraniadau tai drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin eu monitro er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynrychioli'r aelwydydd hynny sy'n aros am dai ar y gofrestr yn ogystal â phoblogaeth y fwrdeistref sirol. Hyd yma, mae'r dyraniadau wedi cynrychioli'r ddau beth yma. Pan fydd pobl yn gwneud cais am dai, rydyn ni'n monitro nodweddion gwarchoddedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn 2015/16, adolygon ni ein proses o ran cymeradwyo polisïau gosod lleol er mwyn sicrhau dydyn nhw ddim yn destun gwahaniaethu o ran y ddeddf yma a chyfreithiau achosion lleol.

Caiff Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cynnal bob amser pan gaiff gwasanaeth newydd ei ddarparu neu os bydd newid i wasanaeth sy'n bodoli eisoes.

Mae ein **Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol** yn darparu gwasanaeth Cymorth Cofrestru Etholiadol ar gyfer trigolion sydd ag anghenion arbennig. Maen nhw'n ymweld â thrigolion er mwyn eu helpu i gofrestru. Yn ogystal â hynny, mae proses i hwyluso'r broses o gofrestru ar-lein. Mae modd addasu'r broses yma ar gyfer trigolion sydd ag anabledau.

Cyflwynodd y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd** newidiadau i'r gwasanaeth yn 2016. Cafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal cyn y newidiadau yma. Cafod yr wybodaeth ei chasglu o nifer o ffynonellau, gan gynnwys adborth gan gwsmeriaid. Roedd y gwersi a ddysgwyd o'r newidiadau blaenorol yn 2014 yn golygu bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn 2016 yn fwy cynhwysfawr, gwrthrychol ac ystyrlon.

Mae ein Gwasanaeth **Parciau a Chefn Gwlad** yn sicrhau y caiff hygyrchedd hollgynhwysol ei adolygu ym mhob parc a chyfleuster cefn gwlad, yn ogystal â

phol lleoliad a Hawl Tramwy Cyhoeddus. Weithiau, mae'r gallu i gydymffurfio yn llawn yn dibynnu ar gyfyngiadau o ran yr amgylchedd ffisegol a'r dirwedd.

Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau bod pob man chwarae newydd neu fan chwarae a gaiff ei adnewyddu yn gwbl hygyrch. Caiff cyfarpar penodol sy'n fwy addas i ddefnyddwyr anabl ei osod lle bynnag y bo modd gwneud hynny.

Mae ein **Gwasanaeth Twristiaeth** yn trefnu amrywiaeth o achlysuron a gaiff eu cynnal ledled y fwrdeistref ac maen nhw ar gael i bob trigolyn. Er enghraifft, mae lleoliad ein Diwrnod i'r Lluoedd Arfog yn newid bob blwyddyn er mwyn rhannu'r neges mewn lleoliadau gwahanol a galluogi trigolion o wahanol gymunedau i gael budd o'r achlysur a chymryd rhan ynddo. O ran yr achlysuron hynny sy'n galw am logisteg a seilwaith arbennig, rydyn ni'n ymdrechu i ddewis lleoliadau sy'n hygyrch i holl drigolion Rhondda Cynon Taf yn ogystal ag ymwelwyr, hynny yw, lleoedd sy'n hawdd i'w cyrraedd ac sydd â maes parcio. Rydyn ni'n ystyried mynediad i bobl anabl bob amser, ac mae unrhyw bebyll/strwythurau dros dro yn cael eu codi yn unol â'r gofynion mynediad a gaiff eu hargymell.

Mae'r garfan **Drafnidiaeth** yn darparu trafndiaeth Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ffisegol yn y gymuned. Mae gan 936 o blith y 12,439 o ddysgwyr a gaiff eu cludo anghenion addysgol arbennig. Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i anghenion unigol y dysgwr gan garfan arbennig yn y gwasanaeth. Yn ogystal â hynny, caiff gyrwyr a chynorthwyrwyr teithwyr hyfforddiant arbennig ym maes ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac epilepsi, cymorth cyntaf, yn ogystal â deall ymddygiad heriol a'i reoli.

Mae'r Cyngor yn bartner yng **Ngwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru** ac mae gydag e Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth priodol drwy Heddlu Gwent. Yn ystod 2015/16, cafodd 182 trefniant eu gwneud drwy'r gwasanaeth. Cafodd 14 o ieithoedd eu defnyddio, yn ogystal â dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Beth rydyn ni wedi'i wneud i hybu cyfle cyfartal.

Mae'r **Gwasanaeth Addysg i Oedolion** yn cynnig cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol i bobl sydd ag anableddau dysgu cymhedrol neu ddwys. Mae'r dull o gofrestru ar gyfer y cyrsiau hyn wedi newid fel bod modd i ddysgwyr fynychu cyrsiau y maen nhw wedi'u hastudio eisoes os does dim cyrsiau addas eraill ar gael ar y lefel yna.

Mae'r Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad at y **Cyfamod Cymunedol**. Mae'r Cyfamod Cymunedol yn ddatganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil Rhondda Cynon Taf a'r Gymuned Lluoedd Arfog lleol. Mae'r addewid yn

cydnabod y parch deuol rhwng y Cyngor, ei asiantaethau partner, ei gymunedau a'n Personél Lluoedd Arfog (gwasanaethu ac ymddeol) a'u teuluoedd.

I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/ArmedForcesCovenant/Communitycovenantgeneralinformation.aspx>

Mae'r **Gwasanaeth Celfyddydau** yn galluogi cynhalwyr, pobl hŷn (60+), plant, myfyrwyr a theuluoedd i gael gafael ar docynnau rhatach/am ddim i achlysuron.

Mae Theatrau Rhondda Cynon Taf wedi cofrestru ar gynllun HYNT ac maen nhw'n derbyn cerdyn y Cinema Exhibitors Associate (CEA). Mae'r rhain yn gynlluniau cenedlaethol sy'n galluogi'r rheiny sy'n gymwys i gael gafael ar docynnau am ddim ar gyfer eu cynhalwyr er mwyn eu helpu i ddod i achlysuron byw neu i fynd i'r sinema.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill er mwyn ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd i'w cyrraedd a datblygu gwasanaethau gyda nhw. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod bod hyn yn un o gryfderau'r Gwasanaeth Celfyddydau: "the real strengths of the organisation lie in its connection with its local communities, clearly understanding its demographics...and there is a clear link between the local authority's Cultural Service and addressing issues of poverty and lack of opportunities in the area".

Mae gwasanaeth Theatrau Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod perfformiadau matinée yn rhan o'i raglenni. Nod y perfformiadau matinée yma yw galluogi oedolion hŷn i fanteisio ar achlysuron ar amser sy'n addas ar eu cyfer nhw.

Mae'r theatrau yn cynnal rhaglen o berfformiadau hamddenol sy'n agored i bawb. Mae'r amgylchedd wedi'i addasu'n arbennig i deuluoedd â phlant sydd ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, unigolion sydd ag anawsterau synhwyraidd ac unrhyw un a fyddai'n cael budd o amgylchedd mwy hamddenol.

Mae swyddogion datblygu'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn darparu gweithgareddau celfyddydau i grwpiau sy'n anodd i'w cyrraedd, ac yn goruchwyllo'r ddarpariaeth honno. Yn aml, mae'r swyddogion celfyddydau yn darparu cymorth mentora un i un i bobl yn y grwpiau anodd i'w cyrraedd yma. Maen nhw wedi cyflawni hyfforddiant ar hyfforddi a mentora.

Mae'r **Gwasanaeth i Blant a Phobl Ifainc** wedi helpu 872 o ddisgyblion sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol. Caiff disgyblion yn y fwrdeistref gymorth i gyflawni eu TGAU yn yr iaith maen nhw'n ei siarad gartref ac mae'r canlyniadau diweddar yn galonogol. Yn 2015/16; roedd gan 12 o ysgolion gyfanswm o 49 o ddisgyblion

a gyflawnodd 21 arholiad TGAU; 16 arholiad UG a 6 arholiad Safon Uwch mewn 15 iaith yr oedden nhw'n ei siarad gartref.

Mae'r maes gwasanaeth yn dal i gydweithio â Stonewall Cymru yn ogystal â phartneriaid eraill i gyflawni hunanasesiad y Mynegai Cydraddoldeb Addysg. Rydyn ni wedi ymgorffori targedau cydraddoldeb yn y Strategaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Strategaeth Llesiant yn rhan o'r broses yma. Rydyn ni wedi canolbwyntio ar baratoi adnoddau adnabyddiaeth ar gyfer staff dysgu a datblygu rhaglen gydraddoldeb dan arweiniad cydweithwyr mewn tair ysgol uwchradd. Caiff staff y rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl ifainc neu mewn ysgolion, yn ogystal ag arweinwyr strategol y gwasanaeth Addysg a Llesiant hyfforddiant gan Stonewall. Caiff effaith y gwaith yma ei gwerthuso ar ôl i'r hyfforddiant gael ei roi ar waith.

Mae'r **Gwasanaeth Cymunedau a Ffyniant** yn darparu cymorth seilwaith effeithiol o ran cydlynu ac ymgorffori'r ffordd y caiff y rhaglenni yma eu cyflawni a'u comisiynu. Nod hyn yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn hollgynhwysol, yn gyfartal ac yn deg. Er enghraifft, mae'r gwaith o gomisiynu'r adran Addysg i Oedolion i ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd ym mhob clwstwr wedi galluogi'r gwasanaeth i aildosbarthu adnoddau craidd i feysydd targed y tu hwnt i'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn golygu bod modd i oedolion ledled Rhondda Cynon Taf fanteisio ar y ddarpariaeth yma, ni waeth lle maen nhw'n byw.

Mae nifer o staff y garfan Cymunedau yn Gyntaf yn aelodau o'r rhwydwaith Cynghreiriaid newydd ac maen nhw'n ymdrechu i godi ymwybyddiaeth eu cydweithwyr a'r gymuned o'r ymgyrch #DimAnwybyddu.

Bellach, mae'r rhaglen DIVERT 18-25 wedi'i rhoi ar waith yng Ngwm Taf, a hynny yn rhan o'r **Bartneriaeth Cymunedau Diogel**. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cyflogi swyddogion i arwain y prosiect mewn partneriaeth â'r Heddlu a rhanddeiliaid eraill. Mae'r gwerthusiad cynnar o chwe mis cyntaf y prosiect yn dangos bod gan y 61 o bobl a gafodd eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth anghenion amrywiol (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, diweithdra ac anabledau). Rydyn ni'n mynd i'r afael â'r rhain mewn ffyrdd amrywiol drwy weithio mewn partneriaeth er mwyn atal aildroseddu. Mae hi'n rhy gynnar i asesu effaith y prosiect ar gyfraddau aildroseddu. Serch hynny, mae'r adborth gan gyfranogwyr yn dangos bod nifer uchel ohonyn nhw wedi ymgysylltu â'r prosiect a chymryd rhan, sy'n galonogol iawn.

Mae ailgartrefu ffoaduriaid wedi bod yn brif ffocws i staff y Gwasanaeth yn 2016. Cafodd pum teulu, sef 29 o bobl, eu hailgartrefu'n llwyddiannus. Hyd yma, does dim problemau wedi codi yn yr ardaloedd yma. Mae hyn yn gyflawniad

arwyddocaol, ac yn dangos fod asiantaethau amrywiol wedi llwyddo i baratoi ar gyfer y broses yma ac integreiddio'r unigolion.

Mae **Gwasanaethau'r Gymuned** wedi adolygu eu proses asesu a blaenoriaethu o ran ceisiadau am fannau parcio penodol i drigolion anabl. Mae'r Garfan Rheoli Traffig yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau'r Gymuned yn rhan o'r broses yma er mwyn creu 10-12 o fannau parcio arbennig bob blwyddyn.

Cafodd y **Cylch Trafod Materion Anabledd** ei sefydlu o ganlyniad i adborth o'r Gynhadledd Anabledd Estyn Allan yn 2003. Mae'r Cylch Trafod yn monitro cyflwyno cynllun gweithredu y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cyfrannu'n rheolaidd at ystod eang o ymgynghoriadau e.e. y broses gosod cyllideb ar gyfer y Cyngor a mentrau Llywodraeth Cymru megis Fframwaith ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn rhoi gwybod i aelodau o'r cylch am eitemau a all fod o ddiddordeb iddyn nhw. Mae hyn wedi arwain at aelodau yn cyfrannu at faterion lleol megis gwelliannau i orsafoedd trên lleol.

Yn 2015, cyfrannodd y Fforwm Anabledd at Achlysur Iechyd Meddwl a Gwybodaeth am Anabledd y Byd yng Nghanolfan Hamdden Sobell, Aberdâr. Cafodd yr achlysur ei gynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â hynny. Yn ogystal â hynny, roedd yn gyfle i bobl anabl (gan gynnwys y rheiny sydd â chyflwr iechyd meddwl) gael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae **Grŵp ar gyfer Swyddogion Materion Anabledd** yn parhau i gwrdd. Mae'r gweithgor yn cynnwys swyddogion sydd un ai'n darparu gwasanaethau i bobl anabl yn uniongyrchol neu'n cyfrannu at sicrhau gwasanaethau sy'n fwy hygyrch, neu fod elfen o'u swydd yn cynnwys delio â materion anabledd. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, nodi arferion gorau a hyrwyddo cyfathrebu mewnol.

Mae'r **Gwasanaeth Cynnal a Chadw a Rheoli'r Priffyrdd** yn cynnal rhaglen barhaus o welliannau o ran hygyrchedd i briffyrdd. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ganol trefi ac ardaloedd cymdeithasol pwysig eraill lle byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cael budd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yr oedd angen ei wneud er mwyn gwella canol trefi a'r prif ffyrdd sy'n arwain atyn nhw wedi'i gyflawni. Bellach, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar wella ardaloedd yn ôl ceisiadau gan y cyhoedd. Caiff ceisiadau o'r fath eu hystyried a'u blaenoriaethu ar sail y budd i'r gymuned ehangach, serch hynny, mae mwy o ffocws ar anghenion yr unigolion. Mae'r Cyngor yn darparu 242 o fannau parcio penodol i ddefnyddwyr anabl yn ei feysydd parcio â thâl. Mae hyn yn gyfystyr â mwy na 7% o'r holl fannau sydd ar gael ac yn uwch na'r nifer sydd wedi'i argymhell yn y canllawiau. Does dim rhaid i

ddefnyddwyr anabl dalu am ddefnyddio'r manau penodol yma pan fyddan nhw'n dangos eu bathodynau glas.

Mae'r staff wedi cyflawni sawl math o hyfforddiant sy'n ymwneud â chydaddoldeb, gan gynnwys Croesawu Pobl Anabl a Darparu ar gyfer Defnyddwyr Ffyrdd sy'n Anabl. Caiff gwaith cwmnïau cyfleustodau eu fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran rheoli traffig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n addas ar gyfer defnyddwyr priffyrdd sy'n anabl.

Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau sylweddol i nifer yr arosfannau bysiau yn y fwrdeistref sydd ag ymylon sydd wedi'u codi at ddiben mynediad. Mae hyn yn sicrhau bod modd i bawb gael mynediad ar fws.

Mae unrhyw waith i osod manau croesi i gerddwyr, neu adnewyddu hen fannau, yn cynnwys nodweddion fel cerrig cyffyrddol ar y llawr, conau sy'n troi ac ati er mwyn helpu pobl anabl sy'n defnyddio'r ffyrdd.

O dan rai amgylchiadau, caiff y **Gwasanaethau i Dai** eu targedu tuag at grwpiau penodol, er enghraifft, grantiau trwsio i bobl hŷn neu grantiau cyfleusterau i bobl anabl. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n ymdrechu i ddarparu o leiaf un byngalo sydd wedi'i addasu ar bob safle tai fforddiadwy newydd er mwyn cynyddu nifer y math yma o dai sydd ar gael.

Yn ogystal â hynny, caiff gwybodaeth ei dadansoddi fesul chwarter drwy'r Adroddiad Bywydau Mwy Diogel ar gyfer y Gwasanaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am atgyfeiriadau a gwybodaeth ddemograffig gan gynnwys oed, rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anghenion o ran cymorth.

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru a Phrofedigaethau yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau lloeren a chyfleoedd o ran seremonïau er mwyn ceisio annog y gymuned i gymryd rhan.

Mae nifer y cyfleusterau **Hamdden** sydd wedi'u gwasgaru ledled y fwrdeistref sirol yn sicrhau bod modd i drigolion fanteisio arnyn nhw ble bynnag y maen nhw'n byw. Mae pob amgylchedd ffisegol wedi bod yn destun archwiliad mynediad i'r anabl. Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi rhoi'r camau gweithredu perthnasol ar waith er mwyn gwella'r amgylchedd a mynediad i gwsmeriaid. Mae rhannau o bob cyfleuster ffitrwydd yn cynnwys cyfarpar sydd wedi'i achredu gan y Fenter Ffitrwydd Hollgynhwysol (IFI). Mae hyn yn golygu bod y cyfarpar yn hygyrch i gwsmeriaid anabl a'n bod ni wedi gwneud addasiadau ar gyfer cwsmeriaid anabl.

Mae'r cyfleusterau diweddaraf ym Mhwl Nofio Bronwydd, Canolfan Hamdden Abercynon a Chanolfan Hamdden Cwm Rhondda wedi cael eu symud i'r llawr gwaelod, sy'n fwy addas o ran mynediad. Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi gosod derbynfeydd sy'n addas i bobl anabl, cyfleusterau newid newydd a thoiledau sy'n bodloni'r safonau presennol, yn ogystal â chlwydi mynediad i'r cyfleusterau hynny sy'n addas i bobl anabl. Rydyn ni wedi gweld ymateb cadarnhaol iawn i hyn, ac mae'r diffyg cwynion am y ddarpariaeth yn profi hyn. Yn anffodus, bydd angen i ni weithio'n barhaus ar rai adeiladau er mwyn gwella mynediad a hynny oherwydd eu hoed. Caiff y gwaith yma ei gynnwys mewn unrhyw gynllun i wella cyfleusterau.

Mae'r canolfannau wedi parhau i weithio gyda nifer o grwpiau i bobl anabl. Bellach, rydyn ni'n datblygu clybiau badminton a thrampolinio i bobl anabl yn ogystal â phêl-rwyd i bobl anabl a rygbi cadair olwyn.

Mae ein Cyngor ymhlith tri Chyngor yng Nghymru a fydd yn darparu'r fenter Get Out, Get Active mewn partneriaeth â Disability Sport Wales. Nod y fenter yw cynyddu nifer y cyfleoedd cynaliadwy i bobl anabl mewn dwy ardal ddifreintiedig yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r **Gwasanaeth Llyfrgelloedd** yn cynnig gwasanaeth arbenigol yn y cartref i bobl sydd methu â gadael eu cartrefi neu sydd ag anableddau sy'n galw am ddarpariaeth arbennig (megis grwpiau darllen amgen i bobl sydd â nam ar eu golwg).

Caiff amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau eu cynnig er mwyn diwallu anghenion amrywiol y defnyddwyr. Mae llawer ohonyn nhw mewn grwpiau anodd i'w cyrraedd ac mae gan staff ddealltwriaeth dda o'u rôl o ran cefnogi cwsmeriaid o gefndiroedd gwahanol sydd ag anghenion amrywiol.

Mae darpariaeth y gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion pob sector sy'n rhan o'r boblogaeth. Mae dadansoddiad o'r ffordd y mae grwpiau yn defnyddio ystafelloedd a chyfleusterau cymunedol y llyfrgelloedd yn awgrymu bod amrywiaeth eang o bobl o gefndiroedd gwahanol yn manteisio ar y gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau Alzheimer's, MIND, grwpiau Darllen Amgen, cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg, y rheiny sy'n defnyddio Cludiant Cymunedol Travol, grwpiau i Bobl ag Anableddau Dysgu, Clybiau Gwaith yn ogystal ag ysgolion a grwpiau Mam a Phlentyn cyn oed ysgol. Mae'r ddarpariaeth E-arddegwyr sydd ar gael mae nifer o lyfrgelloedd yn galluogi pobl ifainc i ymdrin â'r llyfrgell mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion. Yn ogystal â hynny, mae Her Ddarllen yr Haf a'r gweithgareddau eraill a gaiff eu darparu i blant a phobl ifainc yn sicrhau bod amrywiaeth dda o ran oedran y rheiny sy'n ymweld â'r llyfrgell.

Mae modd nodi bod y llyfrgell yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith i amrywiaeth o bobl, ni waeth beth fo'u hoedran, rhyw na chefnidir. Llwyddodd saith o bobl ag anableddau dysgu i gyflawni profiad gwaith yn 2014-15. Mae un ohonyn nhw'n dal i wirfoddoli yn y llyfrgell yn rheolaidd.

Mae llyfrgelloedd statig a llyfrgelloedd symudol yn hygyrch i bobl anabl. Mae'r cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd wedi'u haddasu ar gyfer y rheiny sydd â nam ar eu golwg/clyw ac mewn systemau dolen sain ar gael ar gyfer y rheiny sy'n drwm eu clyw.

Mae'r **Gwasanaeth Rheoli Cyflawniad** yn cydlynu'r broses o lunio gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am gyflawniad (ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd) ar ei wefan bob chwarter. Yn ogystal â hynny, caiff achlysuron ymgysylltu eu cynnal yn rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb flynyddol. Mae'r broses yma yn gyfle i swyddogion ymweld â chymunedau er mwyn siarad â thrigolion a grwpiau lleol, e.e. y Fforwm Anabledd, Grŵp Ymgynghori Pobl Hŷn.

Rydyn ni wedi gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei llunio a'i chyhoeddi drwy symleiddio'r gyfres o wybodaeth ariannol a'r wybodaeth am gyflawniad sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod modd i ddefnyddwyr gael gafael ar yr wybodaeth yn haws.

Nod y Gwasanaeth **Caffael** yw sicrhau y caiff materion sydd angen eu hystyried o ran cydraddoldeb eu hymgorffori wrth lunio contractau a darparu gwasanaethau. Yng ngoleuni Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyfrifoldeb yr Awdurdod o ran 'dyletswydd cyffredinol', mae'r Uned yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried ar bob cam o'r broses gaffael.

O ganlyniad i hynny, mae'r gwasanaeth wedi llunio 'Datganiad Polisi Caffael Moesol' sy'n amlinellu egwyddorion y Cyngor o ran cydraddoldeb ac yn rhoi cyngor ar ffyrdd o'u rhoi ar waith wrth weithio ym maes caffael.

Mae gwaith y Gwasanaethau **Adfywio a Chynllunio** yn eang iawn ac yn ymwneud â grwpiau amrywiol yn y gymuned. Caiff gwasanaethau eu darparu mewn modd hollgynhwysol.

Mae'r prosiectau Adfywio wedi cynnwys darparu gwasanaethau hollgynhwysol, cyfartal a theg drwy gyflawni gweithgareddau penodol, er enghraifft:

- Gwasanaeth dwyieithog yng nghanolfan ymwelwyr y Lido
- Polion sain yn y Lido
- Ymgysylltu â grwpiau hygyrchedd lleol
- Rhannu profiadau â sefydliadau, gan gynnwys sefydliad yr RNIB
- Cynllunio gwasanaethau fflysio mewn mannau cyhoeddus ym Mhontypridd

- Gwasanaeth hollgynhwysol o ran defnyddio technoleg i alluogi pobl i fynd i fewn i byllau'r Lido, megis y Pod Pwll
- Darparu deunyddiau mewn arddangosfeydd sydd mewn fformatau fel Braille.

Mae'r Gwasanaeth **Gofal y Strydoedd** yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i bob trigolyn a phob rhan o'r gymuned. Mae staff y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau mewn modd teg a chyfartal, yn ogystal â mynd gam ymhellach i ddiwallu anghenion pobl lle y bo hynny'n briodol.

Mae'r Gwasanaeth **Safonau Masnach** wedi cynnal rhai gweithgareddau sy'n targedu grwpiau sy'n agored i niwed yn benodol. Er enghraifft mae ein gwaith gorfodi sy'n ymwneud â thwyll a throeddu ar garreg y drws yn targedu pobl sy'n agored i niwed. Rydyn ni wedi erlyn llawer o werthwyr am dwyllo pobl sy'n agored i niwed. Mae ein gwaith o ran trosedd ar garreg y drws yn defnyddio arfer gorau, megis ymateb ar frys tra bod y gwerthwyr yng nghartref yr unigolyn, ynghyd â'r heddlu os yw hynny'n bosibl.

Mae'r Cyngor wedi cefnogi cyfleoedd am swyddi gyda **Vision Products**. Mae'r cwmni'n darparu cyfleoedd am swyddi pobl anabl ac yn cynnig nifer o swyddi prentisiaeth. Drwy fanteisio ar gyllid dewis gwaith, llwyddodd Vision Products i helpu 63 o bobl anabl i aros mewn swyddi rheolaidd. Mae'r cwmni'n darparu amrywiaeth o hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant, gwasanaethau cwnsela, cymorth personol, cymorth un i un gyda swyddi, sgiliau gwaith, mentora o ran swyddi, anogaeth diogelwch a hyfforddiant ar iechyd a diogelwch.

Caiff nodau'r cwmni ar gyfer y gweithwyr eu hamlinellu isod. Mae'n awyddus i nodi'r rhwystrau a rhoi cynllun gweithredu ar waith er mwyn helpu'r gweithwyr i wneud y canlynol:

- rheoli eu cyflwr yn ddyddiol wrth eu gwaith
- gwella eu sgiliau cyfathrebu a'u datblygu
- gwella eu sgiliau technegol
- bod yn fwy annibynnol
- parhau â'u datblygiad proffesiynol
- gweithio'n ddiogel bob amser
- cynnal lefelau cyflawniad cynhyrchiol yn y gwaith
- gwella cynhyrchedd ac ansawdd y gwaith.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau gwaith â chymorth, megis Elite a Llamau. Mae'r rhaglenni canlynol wedi'u cynnig:

- Llwyddodd 8 o bobl i gwblhau rhaglen 13 wythnos. Yn ddiweddarach, cafodd 3 o'r unigolion yma eu cyflogi ar y rhaglen brentisiaeth

- Llwyddodd 6 o bobl i gwblhau rhaglen 26 wythnos – helpu pobl gyda'n gilydd
- Cymrodd 2 unigolyn ran yn y rhaglen Cam i'r Cyfeiriad Cywir
- Cafodd 6 o bobl eu cyflogi ar y rhaglen brentisiaeth
- Llwyddodd 3 o bobl i gwblhau rhaglen profiad gwaith
- Gwirfoddolodd 3 o bobl drwy ITEC ac Anableddau Dysgu Cymru

Mae Cynllun Prentisiaeth y Cwmni yn darparu nifer o gyfleoedd i bobl ifainc anabl. Mae deilliannau'r cynllun fel a ganlyn:

- bydd y prentisiaid yn meithrin amrywiaeth o sgiliau y mae modd eu trosglwyddo
- byddan nhw'n ennill cymwysterau mewn sgiliau hanfodol
- byddan nhw'n dangos bod modd iddyn nhw gadw swydd
- byddan nhw'n meithrin sgiliau rhyngweithio cymdeithasol
- bydd prentisiaid yn cael eu penodi mewn swyddi parhaol.

Rydyn ni wedi siarad â nifer o rieni pobl ifainc sydd wedi gweithio ar ein cynllun prentisiaeth 12 mis. Dyma oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

"Mae e wedi magu hyder, mae'n gwneud pethau doedd e ddim yn gallu eu gwneud o'r blaen. Rydyn ni wedi gweld newid mawr gartref, mae wedi gwella cymaint"

"Mae hi wedi meithrin moeseg gwaith da, sydd wedi rhoi strwythur i'w dyddiau hi. Mae hi wedi magu hyder drwy ryngweithio mewn man gwaith arferol, yn hytrach na rhyngweithio â'r athrawon yn ei hysgol arbennig"

"Mae e'n mwynhau pob eiliad o weithio gyda Vision Products. Mae'n codi am 6am, yn mynd i'r gawod ac yn aros yn amyneddgar am ei dacs i'w waith. Mae e'n teimlo bod mwy o ffocws i'w ddyddiau bellach gan fod ganddo drefn arferol. Roedd e'n arfer teimlo'n nerfus pan oedd ar ben ei hun ond bellach, pan fe fydda i'n cynnig mynd gydag e, mae e'n dweud 'Mam, fydda i'n iawn'. Mae e am fynd ar ei wyliau i Magaluf eleni, mae e'n hoff iawn o'r merched"

"Rydw i wedi sylwi ar wahaniaeth enfawr ynddo e. Mae e'n fwy hapus a bydd yr hyn mae e wedi'i ddysgu yn ei helpu i gael rhagor o swyddi. Mae e 100% yn fwy hyderus, ac mae hyn wedi arwain at newid mawr i'r ffordd

mae e'n siarad. O'r blaen, roedd e'n siarad yn gyflym ac yn aneglur, nawr mae e'n siarad yn fwy clir ac araf"

Mae'r **Gwasanaethau Gwastraff** yn darparu cymorth ychwanegol i drigolion syn ei chael hi'n anodd i gydymffurfio â'n polisïau, megis casgliadau sbwriel â chymorth i drigolion sydd ag anawsterau symudedd, a chaniatáu rhagor o fagiâu duon i drigolion sydd methu â didoli eu gwastraff oherwydd nam ar eu golwg.

Rydyn ni wedi gwella'r ffordd y mae modd i drigolion gael gafael ar fagiâu ailgylchu. Bellach, rydyn ni'n teithio i gyfeiriadau unigol os bydd trigolion sydd ag anawsterau symudedd neu'n methu â chyrraedd man didoli agored. Mae hyn yn eu galluogi nhw i ailgylchu pethau hefyd.

Beth rydyn ni wedi'i wneud i feithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau o bobl

Cafodd **Amcanion Cydlyniant Cymunedol** eu pennu ar gyfer 2014. Roedd y rhain yn gyfuniad o nodweddion cyffredin ar draws cynlluniau gweithredu cyfredol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Gweler yr amcanion isod:

Amcan 1 – Adeiladu rhwydwaith gadarn o weithgorau i reoli a darparu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf.

Amcan 2 – Cydlyniant Cymunedol Prif Ffrwd drwy gysylltu a mewnosod yn y Cynlluniau Integredig Sengl a strategaethau allweddol lleol eraill ar draws Cwm Taf.

Amcan 3 – Rhoi gwybodaeth ynghylch pynciau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymunedol ar draws Cwm Taf.

Amcan 4 – Gwella cyfleoedd i adrodd am densiynau yn y gymuned, sy'n cynnwys profiadau o drosedd casineb a pha mor ymatebol ydy unigolion a grwpiau i radicaliaeth.

Cafodd **Grŵp Cydlynu Cymuned** Cwm Taf ei sefydlu yn lle'r hen Fforwm Amrywiaeth Amlasiantaeth. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau statudol, gwirfoddol a chymunedol. Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cael eu cynrychioli yn ystod cyfarfodydd, gan gynnwys y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Bartneriaeth Cymunedau Diogel a'r Gwasanaethau Mynychu'r Ysgol a Lles ac Addysg. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob chwarter. Yma, mae ffigurau archwiliadau ar hap a throseddau casineb yn cael eu cofnodi a'u trafod. Mae atebion amlasiantaeth yn cael eu trafod, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno ynghylch sut mae pob plaid yn cyfrannu at Ddyletswyddau

Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Rydyn ni'n gweithio ar ffyrdd o ymgysylltu â'r cyhoedd yn y cyfarfodydd yma.

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn nodi **Diwrnod Coffau'r Holocost**. Ym mis Ionawr 2016, cafodd achlysur cyhoeddus ei gynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr. Cafodd ei gynnal mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Daeth amrywiaeth o bobl i'r achlysur. Roedd hwn yn achlysur cyfoes a oedd yn gysylltiedig â throseddau casineb rydyn ni'n eu gweld heddiw. Yma, codwyd ymwybyddiaeth am sut i adrodd am Droseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf. Cyfrannodd ddisgyblion o Ysgol Gyfun Treorci ac Ysgol Gynradd Ton-pentre i'r achlysur. Cefnogodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Ddiwrnod Coffau'r Holocost drwy drefnu arddangosfeydd llyfrau yn ymwneud â'r achlysur.

Mae **Grwpiau Byw i Fyw** wedi cael eu sefydlu ar gyfer pobl o bob oed a gallu i fwynhau cwmni pobl eraill mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Mae ethos Byw i Fyw yn gynhwysfawr iawn (pob oed, gallu, anabledd) ac yn cynnig croeso cynnes i bobl fel eu bod nhw'n gallu gwneud ffrindiau a mwynhau.

Ffocws Byw i Fyw yw rhoi hwb i gryfderau eraill fel eu bod nhw'n gallu mwynhau bywyd dim ots beth sydd wedi digwydd iddyn nhw yn y gorffennol. Mae aelodau presennol yn mwynhau'r grwpiau cymaint eu bod nhw'n eu hystyried yn uchafbwynt wythnosol. Mae aelodau yn amrywio o bobl yn eu 20au i'w 90au. Rhaid bod aelodau yn ystyriol tuag at eraill, yn enwedig os oes ganddyn nhw broblemau symudedd, meddygol, gweledol neu broblemau clyw ac ati. Mae pob un sy'n mynychu yn haeddu parch a chyfeillgarwch.

Mae **Carfan Chwaraeon Rhondda Cynon Taf** wedi datblygu prosiectau mewn cydweithrediad ag asiantaethau amrywiol er mwyn mynd i'r afael â sawl demograffig yn y gymuned e.e. mae 'Clwb Colli Pwysau'r Maerdy' yn gweithio gyda merched yng Nghanolfan Chwaraeon Cam Rhondda Fach er mwyn eu helpu i fagu hyder. Cafodd hyn ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r cyfleuster chwaraeon a sefydliad Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r rhaglen **Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** yn fforwm arferion da i gyflogwyr ynghylch tueddiad rhywiol. Daeth y Cyngor yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn 2013. Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn parhau i weithio'n agos gyda charfan gweithle Stonewall er mwyn datblygu arferion sy'n cefnogi gweithwyr LGBT, yn ogystal â chael effaith ar y gymuned. Cafodd y Cyngor ei gynnwys ymlith y 100 Cyflogwr Gorau yn ôl mynegai 2016.

Mae'r **Gwasanaethau Gofal y Strydoedd a Gwastraff** wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i gyfieithu taflenni ymwybyddiaeth mewn nifer o ieithoedd i ddiwallu gofynion poblogaeth aml-ddiwyllynnol myfyrwyr Trefforest. Nod hyn yw mynd i'r afael â gwastraff a materion ailgylchu yn y gymuned. Mae'r

Uned Orfodi a Charfan Werdd y Gymuned wedi cynnal prosiectau megis ymgyrchoedd casglu sbwriel ac adeiladu ystafelloedd dosbarth awyr agored, gan gynnwys cyfleusterau i gadeiriau olwyn a gerddi synhwyraidd.

Cyflawni Strategaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i drigolion er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu a nodi meysydd i'w gwella a gwasanaethau i'w newid, gosod a monitro safonau perfformiad a mesur ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull wyneb yn wyneb er mwyn ymgysylltu â thrigolion yn 2016. Ei nod yw cynnal sgwrs â'n trigolion sy'n ein galluogi ni i edrych ar eu hymatebion gwreiddiol yn fwy manwl. Bydd canfod barn trigolion am yr ardaloedd maen nhw'n byw ynddyn nhw a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn o fudd i'r Cyngor a'i bartneriaid.

Aeth y Garfan Ymgynghori amrywiaeth o achlysuron/fforymau er mwyn ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb. Defnyddion nhw ymarfer mapio er mwyn nodi pa mor fodlon oedd pobl ar fyw, gweithio neu astudio yn Rhondda Cynon Taf. Gofynnion ni i bobl ble roedden nhw'n byw a beth sy'n dda neu'n ddrwg am fyw yno. Roedd yr achlysuron yma yn cynnwys sioeau teithio mewn parciau a chanol trefi.

Yn ogystal â hynny, gofynnion ni i bobl roi eu barn ar rywfaint o Wasanaethau'r Cyngor a disgrifio eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau yma. Roedd y gwasanaethau yma yn seiliedig ar flaenoriaethau presennol y Cyngor neu feysydd lle roedd angen i ni gael barn ein trigolion.

Cafodd ein sgwrs barhaus â'r trigolion ei ehangu ymhellach drwy'r dull ymgysylltu blynyddol o ran cyllid, lle gwnaethon ni barhau i sgwrsio â thrigolion mewn sioeau teithio yng nghanol trefi, mewn canolfannau hamdden ac mewn canolfannau oriau dydd. Defnyddion ni efelychydd cyllideb ar-lein er mwyn galluogi trigolion i gael cyfle i bennu cyllideb y Cyngor eu hunain. Yn ogystal â hynny, cynhalion ni nifer o sioeau teithio gydag arweinwyr.

Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â thrigolion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn casglu barn trigolion.

Rydyn ni wedi parhau i feithrin cydberthnasau â thrigolion sy'n 50 oed neu'n hŷn drwy ymgysylltu â'r Fforymau i Bobl Hŷn. Mae hyn yn cynnwys cynnal nifer o achlysuron penodol yn ystod yr haf.

Rydyn ni wedi cyflwyno Fforwm Ieuenctid ledled Rhondda Cynon Taf sy'n gysylltiedig â Fforymau Ieuenctid Rhanbarthol y Cyngor yn ogystal â chynrychiolwyr o gynghorau ysgolion.

Yn ogystal â hynny, mae'r Garfan Ymgynghori wedi cynorthwyo nifer o ymgynghoriadau ar feysydd gwasanaeth, gan gynnwys twristiaeth, achlysuron, trafnidiaeth, gweithgareddau hamdden, arolygon staff yr Uned Adnoddau Dynol, bodlonrwydd o ran gofal cymdeithasol, archwiliadau digonolrwydd i blant, Llyfrgelloedd ac arolygon o ran y Gymraeg.

Yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i wella'n barhaol, caiff yr adborth o'r gweithgareddau ymgysylltu ei ddefnyddio i werthuso'r effaith y mae gwaith y Cyngor yn ei chael ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Erbyn hyn, mae'r gwaith gwerthuso yn gysylltiedig â'n hwb ymgynghori ar-lein, lle mae mecanwaith sy'n gwerthuso gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gadw a'i anfon yn awtomatig at swyddogion pan fydd ymgynghoriadau yn dod i ben.

Caiff dull cyfun o ran ymgynghori ac ymgysylltu ei ddatblygu drwy Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ar y cyd, a chaiff yr adborth ei adrodd i Fwrdd Cydweithio Cwm Taf. Bwriad y grŵp yw sicrhau dull effeithlon ac effeithiol tuag at ymgynghori ac ymgysylltu i bartneriaid Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. I wneud hyn, byddwn ni'n helpu pobl eraill i ddeall bod angen cynnwys pobl a defnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifainc: Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau.

Bydd partneriaid Bwrdd Gwasanaeth Lleol ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod y math hwn o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dod yn fusnes craidd. Mae hyn yn golygu bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol wrth nodi, cynllunio, comisiynu, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Eleni, mae'r gwaith partneriaeth wedi canolbwyntio ar y cymorth a gaiff ei roi i brosiect partneriaeth o'r enw Deall Ein Cymunedau. Mae gwasanaethau cyhoeddus ledled Cwm Taf, gan gynnwys Cynghorau, y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a sefydliadau'r trydydd sector wedi bod yn casglu gwybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth well o nodweddion gorau'r cymunedau, yn ogystal â'r hyn sy'n bwysig i bobl a'u cymunedau, yr hyn sy'n bwysig o ran eu hiechyd a'u lles a'u syniadau er mwyn gwneud pethau'n well. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio i lywio'r asesiadau angenrheidiol sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cyflawniad y Cyngor

Prif gynllun strategol y Cyngor yw ei [Gynllun Corfforaethol - Y Ffordd Ymlaen](#). Mae'r cynllun yma'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pedair mlynedd rhwng 2016-2020. Caiff y camau gweithredu manwl er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau yma eu hamlinellu mewn cynlluniau sy'n destun monitro a chraffu gan y Cynghorwyr bob chwarter. Mae hyn yn rhan o [Adroddiadau Cyflawniad](#) y Cyngor i'r Cabinet. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y cynlluniau eu herio, eu hadolygu a'u gwerthuso yn fwy manwl. Wedyn, caiff y canlyniadau eu cynnwys yn [Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol \(pdf\)](#) y Cyngor.

Diffyg Gwybodaeth ac Effeithiolrwydd

Er y cafodd llawer o wybodaeth ei chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn, rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n anodd casglu a monitro pob darn o wybodaeth o fewn Cyngor maint Rhondda Cynon Taf. Mae nifer o rwydweithiau traws-Gyngor, e.e. y Grŵp Swyddogion Anabledd, eisoes yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu monitro a'u rhannu. Ond, rydyn ni'n cydnabod bod angen gwneud rhagor i sicrhau dull cyson tuag at rannu gwybodaeth.

Er bod nifer o enghreifftiau o arferion da yn bodoli ynghylch darparu ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol, does dim llawer o fonitro cydraddoldeb yn digwydd rhwng defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn golygu fod ddim data ar gael i'w gasglu a'i ddadansoddi.

I weld sut rydyn ni'n mynd i'r afael â hyn, ewch i adran 'camau pellach' yr adroddiad hwn.

6. Amcanion Cydraddoldeb

Cafodd amcanion cydraddoldeb eu cynllunio i'n helpu i arwain a chyflawni'n well mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb fel a ganlyn:

- Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'.
- Datblygu trefniadau monitro mwy cadarn
- Cyflog y Rhywiau

Cyfuno achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'.

Beth rydyn ni wedi'i gyflawni

Trosedd Casineb

Rydyn ni eisoes wedi nodi ein bod ni wedi datblygu Strategaeth Troseddau Casineb ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Rydym ni wedi rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth ar waith er mwy na blwyddyn bellach, ac mae wedi llwyddo i gyflawni'r canlynol:

- Bydd Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf yn adrodd ar ystadegau troseddau casineb Heddlu De Cymru ac yn craffu arny'n nhw.
- Mae Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhondda Cynon Taf a Swyddog Troseddau Casineb Heddlu De Cymru wedi cynnal nifer o ymweliadau sicrwydd.
- Caiff gwaith ar hyd y rhanbarth ei arwyddbostio i Ganolfan a Gwasanaeth Cymorth Adrodd Troseddau Casineb Cymru Gyfan.
- Caiff adroddiadau ar gynnydd eu cyflwyno i Grŵp Cyngori De Cymru Ddiogelach (SSWAG) a Grŵp Strategaeth Partneriaeth Cymunedau Diogel (Bwrdd Diogelu).
- Mae deilliannau troseddau casineb wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Rydym ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth o logo troseddau casineb Rhondda Cynon Taf a dosbarthu taflenni gwybodaeth am droseddau casineb.
- Rydym ni wedi parhau i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth am droseddau casineb i staff y Cyngor, Aelodau Etholedig a rhieni maeth.
- Rydym ni wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o droseddau casineb i staff mewn cymdeithasai tai a grwpiau cymuned.
- Rydym ni wedi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg ac wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb yng Nghynhadledd Ieuencid y Cyngor, yn ystod wythnos y glas ac mewn achlysuron ym Mhrifysgol De Cymru a Choleg Morgannwg.
- Rydym ni wedi cynnal rhagor o sgysiau ag ysgolion ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth staff a disgyblion yr ysgol yn y dyfodol.
- Nodon ni Ddiwrnod Coffáu'r Holocost gydag achlysur oedd yn berthnasol i droseddau casineb heddiw. Codwyd ymwybyddiaeth hefyd am sut i adrodd am Droseddau Casineb.
- Cynhalion ni wythnos o weithgareddau ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Roedd flog Troseddau Casineb i'w weld ar dudalennau Facebook a Twitter y Cyngor. Cynhalion ni ymgyrch codi ymwybyddiaeth drwy bosteri ar fysiau Stagecoach a defnyddion ni orsaf radio leol i godi ymwybyddiaeth. Cafodd stondinau codi ymwybyddiaeth eu gosod mewn archfarchnadoedd, ysbytai ac ysgolion lleol yn ystod yr wythnos.

Mynd i'r afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol

Herio Ymddygiad

Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant Urddas a Pharch sy'n egluro ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, herio ystrydebau, iaith ac ymddygiad anaddas. Sesiwn hyfforddi ryngweithiol yw hi sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i gyfranogwyr herio'u rhagdybiaethau. Mae mwy na 250 o weithwyr o gwmni Vision Products a'r Gwasanaethau Gofal Preswyl wedi mynychu hyfforddiant Urddas a Pharch eleni. Mae adborth o'r hyfforddiant yn dal i fod yn bositif. Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y byddan nhw'n myfyrio ar y sesiwn ac yn newid eu hymddygiad yn y gweithle. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n annog pobl i lofnodi Ymgyrch #DimAnwybyddu Stonewall, sy'n annog cydweithwyr i herio iaith ac ymddygiad anaddas.

Drwy gydol 2015/16, cafodd sesiynau Agweddau Negyddol, Hunanhyder, Stereoteipio a Dylanwadu ar Agweddau eu cynnal ar gyfer mwy nag 800 o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn rhan o'r Rhaglen Byd Gwaith.

Ymrwymiad i Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall

Caiff ymrwymiad y Cyngor i Raglen Amrywiaeth Stonewall ei amlygu wrth i'r Cyngor gael ei enwi ymhlith y 100 Cyflogwr Gorau yn y DU yn 2016. Roedd y gwelliant yma yn ymwneud â nifer o fentrau a gafodd eu gweithredu, sy'n cynnwys:

- Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol cynaledig
- Lansio Rhwydwaith Cynghreiriaid
- Uwch eiriolwr Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol amlwg
- Gwella ffurflenni monitro er mwyn casglu data sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol
- Mynychu Pride Cymru ac ymgysylltu â thrigolion yno
- Rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol ar Inform ac ar wefan y Cyngor yn rheolaidd, gan gynnwys blogiau gan staff sy'n aelodau o'r rhwydwaith
- Chwifio Baner yr Enfys ar gyfer Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia ac yn ystod wythnos Pride
- Helpu'r Gwasanaethau Diwylliannol yn y sesiwn cipolwg o ffilm 'Pride' ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda
- Hyrwyddo'r Ymgyrch Lasys Enfys
- Annog pobl i gefnogi'r ymgyrch #DimAnwybyddu.

Ymrwymiad i Addewid Amser i Newid Cymru: Addewid Sefydliadol

Ym mis Rhagfyr 2014, llofnododd y Cynghorydd Mike Forey Addewid Amser i Newid Cymru: Addewid Sefydliadol ar ran y Cyngor. Drwy lofnodi'r Adduned, rydyn ni wedi ymrwmo i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu mewn perthynas ag iechyd meddwl yn y gweithle.

Bob mis, bydd y garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnal sesiwn 'amser i siarad' ar un o safleoedd y Cyngor. Rydyn ni wedi cynnal sesiynau ym mhob un o brif swyddfeydd y Cyngor yn ogystal â rhai depos. Mae'r rhain yn sesiynau galw heibio sy'n annog staff i drafod iechyd meddwl. Er mwyn cydfynd â'r sesiynau yma, bydd aelod o staff yn ysgrifennu blog ar Inform unwaith y mis sy'n sôn am sut mae'n byw â chyflwr iechyd meddwl. Cafodd gwybodaeth am ymgyrch Amser i Newid Cymru ei chynnwys yn y sesiynau briffio gorfodol i reolwyr ynglŷn â'r Polisi Rheoli Absenoldeb rydyn ni wedi'i ail-lansio. Yn ogystal â hynny, cynhalion ni sesiynau briffio er mwyn codi ymwybyddiaeth o salwch meddwl a thynnu sylw at weithdrefnau cymorth.

Mae undeb y GMB wedi cydnabod y sesiynau amser i siarad drwy gyflwyno dyfarniad 'Cymeradwyaeth Uchel' i'r fenter yn y categori Prosiect Mwyaf Ysbrydoledig i Wneud Gwahaniaeth yn y Gwaith.

Datblygu Trefniadau Monitro mwy Cadarn

Ers rhai blynyddoedd, rydyn ni wedi wynebu her wrth gasglu data sy'n berthnasol o ran y maes gwasanaeth er mwyn llunio'r adroddiad yma, yn ogystal â dangos y nifer helaeth o arfer cydraddoldeb cadarnhaol sy'n digwydd ym mhob rhan o'r Cyngor ac adolygu meysydd i'w gwella. Y llynedd, lluniodd y garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ffurflenni i gasglu'r wybodaeth yma. o ganlyniad i hyn, daeth 11 o ymatebion i law. Eleni, gweithion ni gyda Charfan Cyflawniad y Cyngor i gasglu gwybodaeth berthnasol o bob maes gwasanaeth yn rhan o broses Hunanwerthuso Hunanwasanaeth y Cyngor. Er bod yr wybodaeth a gasglon ni o'r ymarfer yn galonogol, byddwn ni'n cynnal gwerthusiad llawn i asesu pa mor effeithiol ydyw e.

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r Meysydd Gwasanaeth i adolygu pa wybodaeth a gaiff ei chasglu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'i monitro.

Yn ystod y flwyddyn yma, cynhalion ni archwiliad proffiliau staff er mwyn gwella'r wybodaeth rydyn ni'n ei chadw am ein staff. Yn ogystal â hynny, llwyddon ni i wella ffurflenni monitro er mwyn casglu data sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol.

Cyflogau'r Rhywiau

Ymrwymiad i Brosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE)

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o brosiect arloesol WAVE mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd er mwyn cyflawni'r amcanion o ran y Cyflogau'r Rhywiau. Rydyn ni wedi dadansoddi'r data ynglŷn â' gweithlu yn drylwyr ac wedi nodi meysydd anghydfod o ran cyflogau'r rhywiau. Mae'r meysydd anghydfod yn cynnwys merched a gaiff eu cyflogi ar raddau 1 i 3. Bu swyddog graddedig yn gweithio ar y prosiect yma am chwe mis, ac ymchwiliodd i'r grŵp o staff yma. Cafodd dau adroddiad eu cyflwyno i Uwch Garfan Reoli'r Cyngor yn rhan o'r broses ymchwil yma. Roedd y rhain yn argymhell profiad gwaith mewnol a chyfres o arferion gweithio hyblyg. Cytunon ni ar y ddwy fenter a llunion ni gynllun gweithredu er mwyn eu rhoi ar waith.

Cynhalion ni hyfforddiant ar duedd diarwybod â'r Uwch Garfan Reoli a'n cydweithwyr ym maes Adnoddau Dynol yn rhan o'r amcan o ran Cyflogau'r Rhywiau. Roedd yr hyfforddiant ym maes Adnoddau Dynol yn canolbwyntio ar duedd o ran y rhywiau ac ystrydebau mewn arferion recriwtio. O ganlyniad i'r hyfforddiant yma, byddwn ni'n newid y broses recriwtio, yn arbennig hysbysiadau a disgrifiadau swyddi.

Cynnydd Cyffredinol

Fel y gwelir uchod, mae'r camau'n datblygu'n dda a chân nhw eu monitro drwy ddulliau amrywiol a gan Garfan Rheoli Cyflawniad y Cyngor.

Roedd y broses monitro barhaus wedi nodi bod angen gwneud newidiadau bach i rai o'n camau. Yn ogystal â hyn, nododd yr Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol blaenorol fod angen adolygu'r amcanion cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwybodaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y newidiadau yn cael eu hadlewyrchu a bod y cynllun gweithredu yn amserol ac yn cael ei gyflawni.

7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi cynnal proses Aseidiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ers sawl blynedd. Mae'r broses yn cael ei chynnal o dan yr amgylchiadau canlynol:

- wrth ddatblygu polisiâu neu arferion newydd (gan gynnwys cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol)
- wrth gynnig gwneud newidiadau i bolisiâu neu arferion cyfredol, ac wrth gynnal adolygiadau o wariant a gwerthuso rhaglenni
- os oes cynigion i atal neu roi'r gorau i bolisi neu arfer cyfredol
- os yw'r broses Cynllunio Busnes wedi nodi perthnasedd neu oblygiadau i gydraddoldeb

Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd ac mae eisoes yn ystyried y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Dechreuodd y Cyngor broses sgrinio ym mis Ionawr 2012. Ei fwriad yw sicrhau bod y broses mor effeithiol â phosib a bod yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y cam sgrinio yn gallu cael ei defnyddio os oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion sgrinio o fis Ebrill 2014 hyd at fis Mawrth 2015.

Er hynny, mae'r Cyngor yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awtomatig.

Mae'r tabl isod yn nodi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd wedi'u cynnal yn 2014/2015. Gweler crynodeb o'r canlyniadau a'r camau a gymerwyd.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Maes gwasanaeth	Polisi/ Gweithdrefn	Canlyniad
Cyngor cyfan	Rhaglen Gyfalaf 2015/16-2017/18	Effaith isel – dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adnoddau Dynol	Polisi Rheoli Absenoldeb	Effaith gadarnhaol – dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adnoddau Dynol	Cynigion Trefniadau Oriau Hyblyg	Effaith gadarnhaol – dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Strategaeth Tai	Cynllun Homestep	Effaith isel – dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Y Gwasanaeth Celfyddydau	Cynllun Hynt	Effaith gadarnhaol – dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adnoddau Dynol	Trefniadau gweithio ar y cyd – Rheoli swyddi gwag	Effaith gadarnhaol – dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Asesiadau Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Maes gwasanaeth	Polisi/ Gweithdrefn	Canlyniad
Gwasanaethau i blant a	Datblygu Strategaeth i Gynhalwyr Cwm	Cynhaliwyd

gwasanaethau yn y gymuned	Taf	Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb – trefnu monitro yn mynd rhagddyn nhw
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	Aildrefnu darpariaeth ysgolion	Cynhaliwyd Asesiadau Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb – datblygu cynllun gweithredu
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	Trefniadau Cludiant o'r cartref i'r ysgol	Cynhaliwyd Asesiadau Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb – adolygu a diwygio cynigion

Mae'r canlynol yn amlinellu'r cynigion ar gyfer newid gwasanaethau sy'n ofynnol yn rhan o drefniadau Cynllunio Gwasanaethau'r Tymor Canolig, yn enwedig yng ngoleuni'r angen i dorri gwariant ac i alluogi'r Cyngor i bennu cyllideb gytbwys yn y tymor canolig. Roedd y cynigion canlynol yn rhan o ymarfer ymgynghori cynhwysfawr a chafodd Asesiadau Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cynnal. Gweler y cynigion isod:

Cyfadrn	Polisi/Gweithdrefn
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	Gwasanaethau'r Llyfrgelloedd
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng flaen	Meithrinfeydd Oriau Dydd
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng flaen	Llwybr Bysiau â Chymhorthdal

Dilynwch y ddolen ganlynol i gael manylion llawn am adroddiadau, penderfyniadau ac asesiadau'r Cabinet:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/Council.aspx>

8. Data Monitro Cyflogaeth

Rhaid i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi'r data canlynol bob blwyddyn:

- nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl eu nodweddion gwarchoddedig
- nifer y dynion a menywod sy'n cael eu cyflogi, yn ôl eu:
 - swydd
 - graddfa (lle bod system graddio yn berthnasol)
 - cyflog
 - math o gytundeb (gan gynnwys cytundebau parhaol a chyfnod penodol)
 - patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- nifer y bobl sydd wedi ceisio am swyddi â'r awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid eu swydd o fewn yr awdurdod, a nodi sawl oedd yn llwyddiannus yn eu cais a sawl oedd ddim
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a sawl un sydd wedi llwyddo
- nifer y gweithwyr a gyflawnodd hyfforddiant
- nifer y gweithwyr a oedd wedi dilyn y weithdrefn gwynion, un ai drwy wneud cwyn neu drwy fod yn destun i'r cwyn
- nifer y gweithwyr sy'n destun i weithdrefnau disgyblu
- nifer y gweithwyr sydd wedi gadael swydd o fewn yr awdurdod

Rhaid i'r holl wybodaeth uchod gael ei chyflwyno yn ôl pob un o'r grwpiau gwarchoddedig gwahanol. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data ynglŷn â swydd, graddfa, cyflog, a math o gytundeb a phatrwm gwaith. Rhaid i'r rhain gael eu trefnu yn ôl menywod a dynion.

Gweler y wybodaeth ynghlwm wrth Atodiad 1 – Data Monitro Cyflogaeth

9. Caffael

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) sy'n rhan o'r wefan gaffael genedlaethol –

www.Sell2Wales.co.uk

Mae SQuID yn cynnwys cwestiynau craidd sy'n codi'n aml yn ystod y cam dethol. Mae'n cynnwys cronfa ddata o atebion y cyflenwyr at ddibenion eu hailddefnyddio a chynorthwyo prynwyr i greu holiadur drwy ddefnyddio dewin ar sail risg ar gyfer pob cynllun caffael. Y bwriad yw y bydd y pethau yma yn sicrhau'r canlynol:

- Gwell effeithlonrwydd i gyflenwyr a phrynwyr, drwy alluogi bod cwestiynau ac atebion safonol yn cael eu cadw i'w defnyddio yn y dyfodol, drwy gwtogi'r nifer o gwestiynau, a thrwy annog prynwyr i ofyn am wybodaeth os ydyn nhw'n gallu esbonio'n glir sut bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio yn unig.
- Safoni'r cam dethol yn well, a chaniatáu i addasu cwestiynau i gwrdd â gofynion penodol y caffaeliad.
- Eglurder o ran y cam dethol a'r ffordd y bydd atebion yn cael eu gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflenwyr yn gallu penderfynu'n hawdd os ydyn nhw am wneud cynnig am gyfle penodol neu beidio, sut i wneud y gorau o'u cynnig a sut i'w cyflwyno mewn ffordd effeithiol.
- Cyfleoedd gwell i fusnesau bach a chanolig a busnesau lleol allu cystadlu'n deg o ganlyniad i osod cwestiwn sydd wedi'i ystyried yn ofalus. Bydd hyn yn cael gwared â rhai rhwystrau iddyn nhw.

Mae SQuID yn cynnwys adran ynglŷn â chyfleoedd cyfartal sy'n unol â chanllawiau caffael Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – www.equalityhumanrights.com/wales/

10. Gwybodaeth Hygyrch

Mae'r cyngor yn darparu gwybodaeth mewn amryw o ffurfiau yn ôl angen. Mae meysydd gwasanaeth yn cofnodi ceisiadau am ffurfiau gwahanol gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu darparu.

Mae canllawiau ar hygyrchedd ar gael i weithwyr ar ryngwrwyd fewnol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnig gwybodaeth ar y math o wybodaeth sydd ar gael, beth mae'r wybodaeth yn ei gwneud, ac yn cynnwys rhestr o gyflenwyr fel bod gweithwyr yn gallu dod o hyd i ffynhonnell y ffurfiau maen nhw wedi gofyn amdany'n nhw.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Canllawiau Print Eglur yr RNIB i wella dibynadwyedd ei ddogfennau.

11. Gwaith Pellach

Bydd gwaith tuag at gyflawni'r camau gweithredu a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn parhau.

Byddwn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid ar gyfer ein camau gweithredu o ran troseddau casineb. Byddwn ni'n cyflwyno pecyn e-ddysgu ar

droseddau casineb i bob rheolwr ac yn parhau i gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Bydd y rheiny sy'n wynebu troseddau casineb yn dal i gael cymorth ac ymweliadau sicrwydd.

Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu ac ymgynghori â gwahanol rannau o'r gymuned, gan gynnwys y gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a'r gymuned anabl er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu eu hanghenion penodol.

Byddwn ni'n parhau i herio stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl drwy drefnu sesiynau Amser i Siarad misol drwy gydol y Cyngor a chodi ymwybyddiaeth rheolwyr ymhellach.

Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, ac yn sicrhau ein bod ni'n cefnogi ein gweithwyr LGBT.

Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i Fynegai Addysg Cydraddoldeb Stonewall er mwyn sicrhau bod ein hysgolion yn parhau â'r gwaith maen nhw'n ei wneud i ddathlu gwahaniaeth a herio gwahaniaethu.

Byddwn ni'n parhau i ddarparu hyfforddiant Urddas a Pharch i gydweithwyr ym mhob rhan o'r Cyngor ac yn rhoi gwybod iddyn nhw am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan eu hannog nhw i herio agweddau negyddol.

Byddwn ni'n ymestyn ein Rhwydwaith Cynghreiriaid ac yn darparu cymorth a hyfforddiant i aelodau'r grŵp yma er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw roi cymorth a chyfeirio pobl mewn modd effeithiol.

Byddwn ni'n dal i fonitro'r cynllun gweithredu WAVE a byddwn ni'n ymgynghori â merched a gaiff eu cyflogi ar raddau 1 i 3.

12. Manylion Cyswllt

Bydd Rhondda Cynon Taf yn croesawu sylwadau ynghylch unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, boed yn sylwadau ar y cynnwys neu'r hyn sydd ddim yn eglur ynglŷn â'r camau gweithredu a chynnydd o ran cydraddoldeb a chael gwared ar wahaniaethu.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud, cysylltwch â:

Melanie Warburton
Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau

Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

Ffôn: 01443 424170

E-bost: equality@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Data Monitro Cyflogaeth

Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn cael ei chadw yn erbyn cofnodion pob gweithiwr sydd ar restr gyflogau'r Cyngor a'r system wybodaeth adnoddau dynol (Vision) Gofynnir am y wybodaeth yn ystod y cam recriwtio ac mae'n cael ei chofnodi ar yr adeg honno.

Mae'r Cyngor yn annog i'w holl weithwyr ddarparu'r wybodaeth yma. Mae arolwg monitro cydraddoldeb yn cael ei gynnal bob 2 flynedd ar gyfer pob gweithiwr sydd heb wybodaeth ar ei ffeil. Mae hyn yn cael ei wneud mewn ymgais i gynyddu faint o wybodaeth sy'n cael ei chadw.

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r gofynion estynedig ar gyfer monitro gweithwyr yn rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb, cynhaliodd y Cyngor arolwg monitro cydraddoldeb o'i holl weithwyr yn 2011. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymdrin â phob un o'r nodweddion gwarchoddedig heblaw am feichiogrwydd. Ni chafodd y cwestiwn yma ei ofyn oherwydd mae'n debygol y bydd gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth eisoes ar gofnodion y gweithwyr, a gall y cyfnod ar gyfer dychwelyd i'r gwaith olygu fod y wybodaeth ddim yn ddiweddar.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi gweithio gyda meysydd gwasanaeth eraill i ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol. Roedd hyn wedi arwain at greu holiadur a oedd yn cynnwys adrannau ynglŷn â'r defnydd o iaith arwyddion Brydeinig, gallu o ran y Gymraeg ac os oedd gan weithiwr ddyletswyddau gofal. Cafodd y wybodaeth yma ei darparu yn ystadegol i'r meysydd gwasanaeth yn gymorth i'w gwaith a'u strategaethau.

Mae dadansoddiad ystadegol o'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y tablau canlynol. Mae'n ymdrin â holl weithwyr y Cyngor gan gynnwys athrawon a staff ysgolion.

Pobl sy'n cael eu cyflogi yn ôl Nodwedd Warchoddedig

Cafodd y wybodaeth ganlynol ei darparu drwy ddefnyddio rhifau yswiriant pob gweithiwr. Mae hyn yn sicrhau y bydd manylion yn cael eu cynnwys unwaith yn unig lle bod gweithiwr yn gweithio mwy nag un swydd. Mae hyn yn osgoi bod gwybodaeth yn cael ei dyblu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys athrawon a staff ysgol. Bydd rhai cymariaethau yn cael eu gwneud â demograffig lleol Rhondda Cynon Taf am fod dros 80% o weithwyr yn byw yn ardal y Cyngor.

Rhyw

Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth yn ôl rhyw y gweithwyr:

Rhyw	Cyfanswm	% o'r Gweithle
Gwryw	2852	25.9%
Benyw	8152	74.1%
Cyfanswm	11004	100%

Mae'r tabl yn dangos yn glir bod y rhan fwyaf o weithlu y Cyngor yn fenywod. Mae hyn wedi bod yn wir am sawl blwyddyn. Mae hyn yn gymharol ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae menywod yn cyfrif am 51% o boblogaeth yr ardal.

Oedran

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl grŵp oedran:

Oedran	Cyfanswm	% o'r Gweithle
16-24	698	6.4%
25-34	2121	19.3%
35-44	2820	25.6%
45-54	3303	30%
55-64	1829	16.6%
Dros 65	233	2.1%
Cyfanswm	11004	100%

Fel y llynedd, mae'r tabl hwn yn nodi bod dros hanner o weithwyr y Cyngor rhwng 35 a 54 oed. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan 40% o boblogaeth Rhondda Cynon Taf, sydd rhwng 30 a 59 oed.

Anabledd

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl anabledd a dim anabledd:

Gwybodaeth	Cyfanswm	% o'r Gweithle
Anabl	242	2.2%
Dim Anabledd	9040	82.2%
Ddim eisiau dweud	32	0.3%
Dim gwybodaeth	1690	15.3%
Cyfanswm	11004	100%

Mae gwybodaeth yn cael ei chadw am 85% o weithwyr. Nododd canran isel o weithwyr eu bod nhw'n anabl, ond efallai fod hyn ddim yn rhoi'r gwir bortread o anabledd yn y gweithle. Er bod yr holiadur cydraddoldeb staff yn diffinio anabledd, mae'n bosib fydd rhai gweithwyr sydd ag anabledd 'diffiniedig' ddim yn nodi fod ganddyn nhw anabledd. Yn ogystal â hyn, mae angen i'r Cyngor barhau i ddefnyddio data'r gweithwyr hynny sydd wedi cael eu hatgyfeirio i'r adran Iechyd

Galwedigaethol, neu'r gweithwyr hynny y mae eu statws iechyd wedi newid yn ystod eu cyflogaeth.

Hunaniaeth Genedlaethol ac Ethnigrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu tras/ethnigrwydd:

Ethnigrwydd	Cyfanswm
Asiaidd	12
Asiaidd – Prydeinig	1
Asiaidd – Tsieineaidd	1
Asiaidd – Cernywaidd	1
Du	7
Du – Prydeinig	1
Tsieineaidd	4
Cymysg arall	15
Cymysg – Gwyn a Du'r Caribî	2
Arall	25
Ddim eisiau dweud	11
Gwyn	6,980
Gwyn – Prydeinig	794
Gwyn – Cernywaidd	2
Gwyn – Seisnig	21
Gwyn – Gwyddelig	7
Gwyn – Arall	5
Gwyn – Albanaidd	7
Gwyn – Cymreig	1,111
Anhysbys	1,997
Cyfanswm	11004

Mae'r staff hynny sy'n ystyried eu hunain o dras lleiafrif ethnig yn adlewyrchu poblogaeth gyffredinol Rhondda Cynon Taf. Yn y sir, dim ond 1% o bobl yn ystyried eu hunain o dras ethnig ar wahân i wyn Prydeinig, Cymreig, Seisnig neu Albanaidd.

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu hunaniaeth genedlaethol:

Hunaniaeth Genedlaethol	Cyfanswm
Affricanaidd	6
Cefndir Asiaidd Arall	3
Cefndir cymysg Arall	2
Cefndir Gwyn Arall	21
Bangladeshaid	1
Prydeinig	2,033
Caribiaidd	1
Tsieineaidd	5
Seisnig	284

Ewropeaidd	29
Indiaidd	7
Gwyddelig	26
Arall	15
Albanaidd	33
Welsh	5,970
Gwyn ac Asiaidd	4
Gwyn a Du Affricanaidd	3
Gwyn a Du Caribiaidd	1
Anhysbys	2,560
Cyfanswm	11004

Mae gyda ni wybodaeth am 77% o weithwyr. Mae'r mwyafrif o weithwyr yn nodi eu bod nhw'n wyn, Cymreig. Roedd gwyn, Prydeinig yn dilyn hyn.

Crefydd neu Gredo

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu crefydd/ cred:

Crefydd	Cyfanswm
Cristion	2705
Mwslim	3
Hindŵ	5
Iddew	1
Bwdhydd	7
Arall	110
% o'r gweithlu sy'n nodi eu bod nhw'n rhan o grefydd	25.7%
Dim	2155
Ddim eisiau dweud	282
Dim gwybodaeth	5736
Cyfanswm	11004

Mae gyda ni wybodaeth am 37% o weithwyr sy'n nodi eu bod nhw'n Gristnogion. Mae 50% o'r boblogaeth leol yn nodi eu bod nhw'n Gristnogion ac mae 40% yn nodi eu bod nhw ddim yn dilyn crefydd.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu cyfeiriadedd rhywiol:

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cyfanswm
Heterorywiol	3608
Hoyw/Lesbiad	59
Deurywiol	13
% o'r gweithlu sydd wedi nodi eu cyfeiriadedd rhywiol	33.4%
Ddim eisiau dweud	174
Dim gwybodaeth	7150

Mae gwybodaeth yn cael ei chadw am 35% o weithwyr. Mae cynnydd o 10% wedi bod yn y ffigur yma ers y llynedd. Yn rhan o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, bydd gwaith yn parhau i gael ei gyflawni i annog rhagor o weithwyr i gwblhau'r categori yma ar ffurflenni monitro cydraddoldeb.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ar 31 Mawrth 2016, roedd 159 o weithwyr yn absennol ar gyfnod mamolaeth. Doedd dim un ohonyn nhw'n destun i achos disgyblu neu gŵyn. Yn ystod 2015/16, roedd 391 o weithwyr yn absennol ar gyfnod mamolaeth.

Ailbennu rhyw

Does dim gwybodaeth benodol wedi'i chyhoeddi oherwydd y posibilrwydd o enwi unigolion. Mae gan y Cyngor bolisi trawsrywiol, a gafodd ei ddatblygu rhai blynyddoedd yn ôl oherwydd bod gweithiwr wedi gofyn am gymorth. Ers hynny, mae'r polisi wedi cael ei ddefnyddio ac mae cymorth wedi cael ei ddarparu yn ôl angen y gweithwyr.

Rheoliad 9 – Gwybodaeth am ryw

Mae Rheoliad 9 o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru yn mynnu bod y wybodaeth benodol ganlynol yn cael ei darparu mewn perthynas â rhyw:

Nifer o weithwyr sydd wedi'u cyflogi ar 31 Mawrth 2016 yn ôl y canlynol:

- Swydd
- Gradd
- Cyflog
- Math o gytundeb
- Patrwm gwaith.

Cafodd yr wybodaeth ei darparu ar sail y nifer o swyddi, fel bod y gweithwyr hynny sydd â mwy nag un swydd yn cael eu cynnwys yn ôl y swyddi sydd ganddyn nhw. Felly, mae'n bosib y bydd y niferoedd yn wahanol i'r rhai yn yr adran flaenorol. Mae'r wybodaeth yn cynnwys athrawon a staff sy'n gweithio mewn ysgol.

Mae'r tablau isod yn dangos y wybodaeth benodol sydd ei hangen:

Gweithwyr yn ôl eu rhyw a'u swydd

Mae dros fil o wahanol deitlau swyddi yn bodoli yn y Cyngor. Felly, mae'r swyddi wedi cael eu trefnu yn ôl categorïau o fewn y fframwaith cymwyseddau.

Categori'r swydd	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Swyddog Gweinyddu	256	968	1224

Staff ategol	572	1484	2056
Pennaeth Cynorthwyol	26	44	70
Cymuned a Gofal Cymdeithasol	350	3480	3830
Dirprwy Bennaeth	38	85	123
Rheng Flaen a Gofal i Gwsmeriaid	156	237	393
Pennaeth Ysgol	55	74	129
Rheolwr Ganol	78	123	201
Gweithiwr llaw medrus	117	39	156
Rheolwr Strategol	39	29	68
Goruchwyliwr	186	180	366
Athrawes	415	1332	1747
Technegol, arbenigol a phroffesiynol	288	341	629
Athro/Athrawes sydd heb gymhwyso	4	8	12
Cyfanswm	2580	8424	11004

Yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf, mae'r mwyafrif o fenywod yn gweithio mewn meysydd sy'n 'draddodiadol i fenywod', yn enwedig mewn lleoliadau Cymunedol a Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n fwy trylwyr yn rhan o Amcan Cyflog yn ôl y Rhywiau y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Gweithwyr yn ôl rhyw a graddfa

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r systemau graddio canlynol (diweddarwyd 31 Mawrth 2016).

- Prif Swyddogion (Pennaeth y Gwasanaeth ac uwch)
- Cyd-Gyngor Cenedlaethol
- Athrawon/Addysg

Mae'r tablau isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu rhyw a'u graddfa:

Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa – Prif Swyddogion

Gradd	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Prif Weithredwr	0	1	1
Cyfarwyddwr Cyfadran	0	2	2
Cyfarwyddwr Lefel 1	0	3	3
Cyfarwyddwr Lefel 2	2	2	4
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1	1	2	3
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2	1	6	7
Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1	9	11	20
Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2	6	6	12

Cyfanswm	19	33	52
-----------------	-----------	-----------	-----------

Does dim newid wedi bod ers y flwyddyn ddiweddaf. Mae rhan fwyaf o swyddi'r Prif Swyddogion yn cael eu cyflawni gan ddynion. Mae'r menywod sy'n Brif Swyddogion yn is ar y raddfa yn bennaf.

Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa – Cyd-Gyngor Cenedlaethol

Gradd	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
GR1	269	89	358
GR2	1013	41	1054
GR3	610	190	800
GR4	922	282	1204
GR5	810	472	1282
GR6	1152	322	1474
Gradd 7	540	123	663
GR8	248	132	380
GR9	178	121	299
GR10	150	135	285
GR11	269	126	395
GR12	117	58	175
GR13	101	58	159
GR14	11	4	15
GR15	39	27	66
Cyfanswm	6429	2180	8609

Er bod 74% o weithlu y Cyngor yn fenywod, mae'r wybodaeth yn nodi mai menywod sy'n dominyddu'r raddfa gyflog is. Bydd hyn yn cael ei archwilio o dan Amcan Cyflog y Rhywiau o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa – Athrawon/Addysg

Gradd	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Seicolegwyr a Chynghorwyr Addysg	70	27	97
Prentisiaethau	19	37	56
Grwpiau Arwain/Penaethiaid	72	55	127
Dirprwy Benaethiaid	130	64	194
Athrawon	1362	432	1794
Cyfanswm	1653	615	2268

Mae'r ffigurau uchod yn dangos mai menywod yw'r mwyafrif yn y proffesiwn addysg (73%).

Mae crynhoi graddau cyflog unigol ym maes Addysg yn broses yn gymhleth, ac felly yn eithaf anodd ei chrynhoi. Ond, mae rhaniad eithaf cyfartal rhwng dynion/menywod ar hyd y pwyntiau cyflogaeth. Does dim anghysonderau amlwg o ran eu gallu i symud drwy'r graddfeydd. Mae'r graddfeydd a'r pwyntiau cyflog yn seiliedig ar raddfeydd cyflog cenedlaethol cytûn. Mae gofynion penodol ynghlwm wrth bob graddfa a'r ffordd y mae gweithwyr yn symud drwyddyn nhw.

Gweithwyr yn ôl math o gytundeb / patrwm gwaith

Math o contract	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Llawn Amser, Parhaol	2348	1902	4250
Rhan Amser, Parhaol	1766	227	1993
Rhan Amser, Parhaol – Tymor yr ysgol yn unig	1978	80	2058
Parhaol – Tymor yr ysgol yn unig	142	20	162
Llawn Amser, Dros Dro	250	166	416
Rhan Amser, Dros Dro	138	63	201
Rhan Amser, Dros Dro – Tymor yr ysgol yn unig	805	63	868
Rhan Amser, Dros Dro	27	13	40
Achlysurol	699	317	1016
Cyfanswm	8153	2851	11004

Mae'r dadansoddiad o aelodau parhaol o staff sy'n fenywod/dynion yn debyg i'r gweithlu cyffredinol. Er bod 74% o'r gweithlu cyffredinol yn fenywod, mae canran uwch o'r menywod yn gweithio swyddi rhan amser neu yn ystod tymor yr ysgol o gymharu â dynion.

Ymgeiswyr ar gyfer Swyddi neu Ddyrchafiad

Cafodd 306 o swyddi gwag eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn 2014/2015. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau monitro recriwtio o'r un cyfnod.

Ymgeiswyr am Swyddi a Dyrchafiad yn ôl nodweddion gwarchoddedig

	Ymgeiswyr	Ar y rhestr Fer	Wedi'u penodi
Gwryw	1144	514	148
Benyw	1950	899	260
Lleiafrif Ethnig	75	34	7
Anabl	127	65	12
Lesbiad, Hoyw, Deurywiol	103	43	17

Mae'r nifer o unigolion a gafodd eu penodi ym mhob categori yn adlewyrchu cyfansoddiad cyffredinol y Cyngor.

Hyfforddiant

Mae'r broses monitro cydraddoldeb yn cael ei chynnal yn ôl pwy sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnol yn unig. Mae'r broses hefyd wedi cael ei chynnal drwy ddefnyddio ffurflenni monitro cydraddoldeb sydd nawr yn monitro holl nodweddion gwarchodedig. Ychwanegwyd cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth yn ystod 2014/15.

Rydyn ni'n adnabod yr angen am hyfforddiant, dysgu a datblygiad drwy systemau adolygu cynlluniau a pherfformiad gweithlu'r Cyngor. Yn ystod cyfweiliadau datblygiad personol, bydd rheolwyr yn trafod anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygu â gweithwyr. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r adolygiadau perfformiad a chymwyseddau'r swydd. Mae'r canlyniadau yn cael eu cynnwys mewn cynllun hyfforddiant adrannol neu ranbarthol.

Nid yw'r Cyngor yn monitro ceisiadau hyfforddiant sy'n cael eu gwrthod. Caiff hyn ei ystyried.

Cafodd 556 o ffurflenni monitro cydraddoldeb eu cyflwyno yn 2014/15.

Hyfforddiant yn ôl rhyw

Cyfadran	Gwryw	Benyw	Trawsrywiol	Ddim eisiau dweud	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
Prif Weithredwr	13	20	0	0	0	33
Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	76	253	0	1	2	332
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	28	56	0	0	0	84
Addysg a Dysgu Gydol Oes	8	29	0	0	0	37
Ddim wedi nodi	18	51	0	0	1	70
Cyfanswm	143	409	0	1	3	556

Hyfforddiant yn ôl Oedran

Cyfadran	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+	Ddim eisiau dweud	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
Prif Weithredwr	3	2	22	5	0	0	0	1	33
Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	18	52	64	107	86	4	0	1	332
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	7	12	25	31	8	0	0	1	84
Addysg a Dysgu Gydol Oes	4	5	12	11	5	0	0	0	37
Ddim wedi nodi	11	8	11	17	19	3	0	1	70
Cyfanswm	43	79	134	171	118	7	0	4	556

Hyfforddiant yn ôl Ethnigrwydd

Cyfadran	Prydeinig	Tsieineaidd	Cernywaidd	Seisnig	Gwyddelig	Alban aidd	Cymreig	Cymysg – Gwyn a Du'r Caribî	Ddim eisiau dweud	Cyfanswm
Prif Weithredwr	15	0	0	0	0	0	18	0	0	33
Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	92	0	1	4	1	1	233	0	0	332
Gwasanaethau	37	0	0	4	0	0	43	0	0	84

Corfforaethol a Rheng Flaen										
Addysg a Dysgu Gydol Oes	12	1	0	0	0	0	23	1	0	37
Ddim wedi nodi	28	0	1	4	0	1	36	0	0	70
Cyfanswm	184	1	2	12	1	2	353	1	0	556

Hyfforddiant yn ôl Crefydd neu Gred

Cyfadran	Cristion	Bwdhydd	Dim crefydd	Arall	Ddim eisiau dweud	Dim gwybo daeth	Cyfanswm
Prif Weithredwr	22	0	11	0	0	0	33
Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	124	1	132	19	16	40	332
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	27	0	37	4	4	12	84
Addysg a Dysgu Gydol Oes	18	0	14	0	2	3	37
Ddim wedi nodi	30	1	21	3	2	13	70
Cyfanswm	221	2	215	26	24	68	556

Hyfforddiant yn ôl Beichiogrwydd neu Famolaeth

Cyfadran	Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?	Ddim yn feichiog ar hyn o bryd, nac wedi bodyn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf	Ddim eisiau dweud	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
Prif Weithredwr	0	32	0	1	33
Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	7	290	1	34	332
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	2	75	0	7	84
Addysg a Dysgu Gydol Oes	1	33		3	37
Ddim wedi nodi	1	62		7	70
Cyfanswm	11	492	1	52	556

Hyfforddiant yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfadran	Heterorywiol	Hoyw/Lesbiad	Deurywiol	Ddim eisiau dweud	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
Prif Weithredwr	32	0	0	0	1	33
Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	283	3	1	16	29	332
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen	72	1	0	3	8	84
Addysg a Dysgu Gydol Oes	31	2	0	2	2	37
Ddim wedi nodi	56	1	0	0	13	70
Cyfanswm	474	7	1	21	53	556

Disgyblu a Chwynion

Mae achosion disgyblu a chwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro drwy System Vision. Roedd 183 o achosion yn ymdrin â disgyblu, cwynion ac urddas yn y gwaith a chamau gweithredu disgyblu yn ymwneud ag absenoldebau oherwydd salwch yn 2015/2016. Mae'r tablau isod yn dangos gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn ôl y canlynol:

Rhyw

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion
Gwryw	67	39	23	0
Benyw	116	55	29	2
Cyfanswm	183	94	52	2

Fel y mae'r tabl yn dangos, mae'r canran yn uwch o ran achosion a oedd yn cynnwys menywod. Roedd 59% o achosion yn cynnwys menywod, sy'n ganran llai na nifer y menywod yn y gweithlu. Roedd 41% o achosion yn cynnwys dynion, sy'n ganran ychydig yn uwch na nifer y dynion yn y gweithlu cyffredinol.

Oedran

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion
16 – 24	5	5	0	0
25 – 34	31	14	9	1
35 – 44	47	25	9	0
45 – 54	55	34	12	1
55 – 64	43	15	21	0
Dros 65	2	1	1	0
Cyfanswm	183	94	52	2

Mae'r tabl yn nodi bod y rhan fwyaf o achosion disgyblu, absenoldeb salwch, cwynion ac urddas yn y gwaith yn digwydd rhwng oedrannau 35 a 54.

Anabledd

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion
Anabl	11	3	7	0
Dim anabledd	167	89	43	1
Dim gwybodaeth	5	2	2	1
Cyfanswm	183	94	52	2

Ethnigrwydd

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion
Asiaidd	0	0	0	0

Du	0	0	0	0
Tsieineaid	0	0	0	0
Cymysg	0	0	0	0
Gwyn	166	85	48	1
Arall	1	0	0	0
Dim gwybodaeth	16	9	4	1
Cyfanswm	183	94	52	2

Crefydd neu Gred

	Cyfanswm	Disgyblu	Absenoldeb oherwydd salwch	Cwyn	Urddas yn y Gwaith
Dim crefydd	52	32	11	0	9
Cristion	31	13	7	0	11
Arall	3	1	1	0	1
Ddim eisiau dweud	2	0	2	0	0
Dim gwybodaeth	95	48	31	2	14
Cyfansymiau	183	94	52	2	35

Cyfeiriadedd Rhywiol

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion
Heterorywiol	59	26	15	0
Hoyw/Lesbiad	2	1	0	0
Ddim eisiau dweud	0	0	0	0
Dim gwybodaeth	122	67	37	2
Cyfansymiau	183	94	52	2

Ailbennu rhyw a Beichiogrwydd a Mamolaeth

Doedd dim un o'r gweithwyr yn y categorïau hyn yn destun i achosion disgyblu, salwch neu gwynion.

Gadael Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o System Vision yn dangos bod 1,451 o weithwyr wedi gadael eu swyddi yn y Cyngor yn 2015/2016, gan gynnwys 71 o weithwyr a gafodd eu diswyddo. Dylid nodi bod y gweithwyr yma yn gweithio mewn ysgol. Ysgolion, yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion, sy'n penderfynu ar ddiswyddo staff. Mae'r tablau isod yn dangos y niferoedd a adawodd yn 2015/16 a'u rhesymau dros adael:

Rhesymau am adael yn ôl rhyw

Rheswm dros adael	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	51	25	76
Marwolaeth	5	1	6
Diswyddo	4	5	9
Ymddeoliad Cynnar (Athrawon)	8	0	8
Diwedd Cytundeb	197	81	278
Methu'r cyfnod prawf	5	1	6
Salwch	12	3	15
Cytundeb Cytûn	94	37	131
Dileu Swydd	49	22	71
Trosglwyddo i Gyngor arall	19	5	24
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)	11	2	13
Gwirfoddol	340	123	463
Ymddeol Cynnar Gwirfoddol a Diswyddo	156	50	206
Dileu swydd – Gwirfoddol	109	36	145
Cyfanswm	1060	391	1451

Mae rhyw y bobl sy'n gadael cyflogaeth yn adlewyrchu rhyw cyffredinol y Cyngor.

Rheswm dros adael yn ôl oedran

Rheswm dros adael	18-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	0	0	0	0	45	31	76
Marwolaeth	0	0	0	3	3	0	6
Diswyddo	1	3	1	2	2	0	9
Ymddeoliad cynnar (Athrawon)	0	0	0	0	8	0	8
Diwedd Cytundeb	69	86	57	36	23	7	278
Methu'r cyfnod prawf	3	2	1	0	0	0	6
Salwch	0	0	0	3	11	1	15
Cytundeb Cytûn	0	16	26	32	44	13	131
Dileu Swydd	0	3	9	10	43	6	71
Trosglwyddo i Gyngor arall	1	7	8	6	2	0	24
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)	0	2	5	2	4	0	13
Gwirfoddol	61	158	112	73	49	10	463

Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a diswyddo	0	0	0	0	174	32	206
Dileu swydd – Gwirfoddol	1	9	43	75	14	3	145
Cyfanswm	136	286	262	242	422	103	1451

Gadawodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr oherwydd cytundeb yn dod i ben neu o wirfodd. Gadawodd y rhan fwyaf o bobl dros 55 oed oherwydd cyfleoedd i gymryd Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol.

Rheswm dros adael yn ôl Anabledd

Rheswm dros adael	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	3
Marwolaeth	1
Diwedd Cytundeb	9
Methu'r cyfnod prawf	0
Salwch	1
Anallu i ddod i'r gwaith	13
Cytundeb Cytûn	3
Dileu Swydd	3
Gwirfoddol	9
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	11
Dileu swydd – Gwirfoddol	6
Cyfanswm	59

Gadawodd dros hanner o weithwyr anabl o wirfodd (gan gynnwys dileu swydd yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar gwirfoddol a dileu swydd) neu oherwydd oedran ymddeol.

Rheswm dros adael yn ôl tras ethnig

Rheswm	Gwyn	Lleiafrif Ethnig	Anhysbys	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	68	0	8	76
Marwolaeth	6	0	0	6
Diswyddo	8	0	1	9
Ymddeoliad cynnar (Athrawon)	7	0	1	8
Diwedd Cytundeb	171	2	105	278
Methu'r cyfnod prawf	5	0	1	6
Salwch	14	0	1	15

Cytundeb Cytûn	106	0	25	131
Dileu Swydd	58	0	13	71
Trosglwyddo i Gyngor arall	15	0	9	24
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau	11	0	2	13
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	197	0	9	206
Gwirfoddol	334	5	124	463
Dileu swydd – Gwirfoddol	127	0	18	145
Cyfanswm	1127	7	317	1451

Rheswm dros adael yn ôl Crefydd neu Gred

Rheswm	Cristion	Bwdhydd	Arall	Dim	Ddim eisiau dweud	Anhysbys	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	29	0	2	12	0	33	76
Marwolaeth	3	0	0	0	1	2	6
Diswyddo	1	0	0	5	0	3	9
Ymddeoliad cynnar (Athrawon)	3	0	0	0	0	5	8
Diwedd Cytundeb	53	0	2	57	12	154	278
Methu'r cyfnod prawf	0	0	0	5	0	1	6
Salwch	2	0	0	1	0	12	15
Cytundeb Cytûn	37	1	2	9	3	79	131
Dileu Swydd	26	0	0	3	2	40	71
Trosglwyddo i Gyngor arall	7	0	0	2	0	15	24
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)	6	0	0	0	1	6	15
Gwirfoddol	95	1	5	93	8	261	463
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a	87	0	5	20	5	89	206

Swydd yn cael ei dileu							
Dileu swydd – Gwirfoddol	33	1	1	23	2	85	145
Cyfanswm	382	3	17	230	34	785	1451

Rheswm dros adael yn ôl cyfeiriadedd Rhywiol

Rheswm	Heterorywiol	Hoyw/Lesbiad	Deurywiol	Ddim eisiau dweud	Anhysbys	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	37	0	0	0	39	76
Marwolaeth	4	0	0	0	2	6
Diswyddo	5	0	0	0	4	9
Ymddeoliad cynnar (Athrawon)	3	0	0	0	5	8
Diwedd Cytundeb	32	1	0	1	244	278
Methu'r cyfnod prawf	5	0	0	0	1	6
Salwch	1	0	0	0	14	25
Cytundeb Cytûn	39	0	0	2	90	131
Dileu Swydd	21	0	0	2	48	71
Trosglwyddo i Gyngor arall	5	1	0	0	18	24
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau	4	0	0	0	9	13
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	97	0	0	4	105	206
Gwirfoddol	114	1	0	4	344	463
Dileu swydd – Gwirfoddol	44	0	1	2	98	145
Cyfanswm	411	3	1	15	1021	1451